




# **Strategaeth Archwilio Tir Halogedig**

**Adran 78B Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**

**Medi 2002**



**Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd**



**Uned Rheoli Llygredd**

## **RHAGAIR**

Mae'n falch gennyf gyflwyno Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Gwynedd.

Etifeddiaeth annymunedig cyn weithgaredd diwydiannol a gwaredu gwastraff yw tir halogedig. Does gan Gwynedd, yn annhebyg i ardaloedd diwydiannol trymaf y Wlad ddim ardaloedd eang o dir halogedig difrifol, ond, fel awdurdodau cyffelyb, mae yma dir sydd wedi ei effeithio gan gynhyrchiant nwy, gwaredu â charthffosiaeth a gwaredu gwastraff. Mae hefyd yn debygol y gall yna bocedi bychain o lygredd fodoli o ganlyniad i ddiwydiant llai lleol. O ganlyniad i ail-ddatblyu blaenorol, mae'r Cyngor wedi datblygu cymhwysedd mewn delio gyda thir halogedig ac mae yma record dda mewn adnabod tir o'r fath er sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael eu cwblhau mewn modd ddiogel a chyfrifol.

Yr wyf yn croesawu cynhyrchiad y Strategaeth hon, bydd yn tywys y swyddogion fydd yn archwilio'r Awdurdod, yn eu tasg o adnabod tir halogedig, gan ddefnyddio dull wedi ei selio ar risg ble mae diogelu iechyd dynol wastad yn bennaf.

Mae'n cael ei gydnabod yn y degawd diwethaf, fod polisi y Llywodraeth wedi newid yn sylweddol, yn enwedig wrth ddiffinio tir halogedig, a phenderfynu ar faint mor bell y dylid adfer tir. Mi ddylai'r strategaeth archwilio hon sicrhau y bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio ei adnoddau yn ddoeth ac mewn trefn blaenoriaeth. Fe fydd y strategaeth archwilio hefyd yn gwneud cyfraniad tuag at gyflawni nodau cyffredinol y Cyngor i hybu lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

**Gan Gynghorydd Linda Wyn. Jones,  
Portffolio am Dai / Gwarchod y Cyhoedd, Bwrdeistrefol, Rheoli a Gwaredu Gwastraff.**

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

Daeth Rhan IIA o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 i rym yng Nghymru yng Ngorffennaf 2001. Mae'n rhoi cyfrifoldebau newydd ar awdurdodau lleol i ddelio gyda thir halogedig. Y prif flaenoriaeth yw i awdurdodau lleol ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu strategaeth yn egluro sut y mae tir halogedig yn eu hardal am gael ei adnabod, ei ymchwilio a ble mae angen, ei adfer. Mae'n bwysig fod safleoedd sydd angen sylw brys yn cael eu hadnabod gyntaf, ac mae'r ddogfen Strategaeth ddrafft yma yn egluro sut y mae Cyngor Gwynedd am gyflawni hyn.

Fe gyhoeddwyd drafft y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig am ymgynghoriad gyda sefydliadau cyhoeddus ar gymuned leol yn ystod Mis Mai 2002. Mae'r Strategaeth wedi ei diwygio gan hynny ac fe ymgorfforwyd y sylwadau perthnasol i mewn i'r fersiwn derfynol hon. Fe gaiff y Strategaeth ei gadw o dan adolygiad cyfnodol.

Oherwydd yr ardal ddaearyddol eang a'r boblogaeth gymharol wasgaredig yng Ngwynedd, bydd Wardiau Etholiadol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu harchwilio ar sail presenoldeb derbynyddion â safleoedd a wŷr i fod â'r potensial i fod yn halogedig. O fewn y Wardiau gaiff eu blaenoriaethu, bydd adnoddau yn cael eu targedu at leoedd ble mae'r tebygolrwydd mwyaf o adnabod tir halogedig.

Mae gweithredu'r Strategaeth yn rhaglen tymor hir, a rhagwelir y bydd yr asesiad ragarweiniol yn cael ei weithredu rhwng Hydref 2002 a Thachwedd 2005, gyda archwiliadau mwy manwl i ddilyn. Oherwydd y potensial o niwed gan dir halogedig, fe fydd yna sgôp ar gyfer hyblygrwydd o fewn y dull yma.

Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd mewn trefn pwysigrwydd fydd: -

- I warchod bodau dynol;
- I warchod dyfroedd a reolir;
- I warchod sustemau ecolegol;
- I rwystro niwed i eiddo;
- I rwystro unrhyw lygredd tir pellach;
- I annog gwaith adferol gwirfoddol;
- I annog ail ddefnydd o dir a ystyrir i fod yn dir llwyd neu yn halogedig.

O fewn Gwynedd er enghraifft, y safleoedd y bydd disgwyl iddynt gael eu hadnabod fel tir gyda'r potensial i fod yn halogedig fydd hen safleoedd gwaredu gwastraff, hen safleoedd nwy a chyn sefydliadau milwrol.

Ar hyn o bryd nid oes gennym amcangyfrif cywir mewn perthynas a ehangder tir halogedig yng Ngwynedd. Gallwn ond dynodi tir fel *tir halogedig* ble mae'n cwrdd â'r criterion sydd wedi ei bennu yn y Canllawiau Statudol. Mae'r Strategaeth yma yn cynnwys manylion am y criterion sydd angen i dir gael ei ddynodi yn halogedig a'r dull gweithredu a wnaiff ddilyn i sicrhau ei adferiad.

Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio yn agos âg Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynghyd â asiantaethau perthnasol eraill. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfrifol am ddelio gyda *safleoedd arbennig* a bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth eu cyfarwyddyd ar ddyfroedd a reolir a'u polisïau ar warchod dŵr daear.

Fe fydd y Strategaeth yn plethu â Chynlluniau Statudol eraill Cyngor Gwynedd a pholisïau sefydliadau sy'n bartneriaid mewn perthynas â datblygiad cynaliadaw y thir halogedig.

Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd fydd gan y brif swyddogaeth i weithredu'r Strategaeth. Yn ogystal, mae Gweithgor Tir Llygredig sydd yn cynnwys aelodau o'r holl adrannau perthnasol y Cyngor wedi ei sefydlu.

Bydd yn rhaid i Gyngor Gwynedd gadw cofrestr gyhoeddus o'r gweithrediad gorfodol mewn perthynas a thir halogedig.

Mae'r Strategaeth Adnabod Tir Llygredig ar gael ar we safle y Cyngor ar: [www.gwynedd.gov.uk/](http://www.gwynedd.gov.uk/)

## CYNNWYS

	Rhif y dud.
<b>1 CYFLWYNIAD</b>	1
1.1 Safbwynt y DG: Amcanion y Llywodraeth	1
1.1.1 Y Safbwynt Cenedlaethol: Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	1
1.2 Y Safbwynt Lleol: Nodau ac Amcanion Corfforaethol Cyngor Gwynedd	1
1.3 Y Cyd-destun rheoliadol	2
1.3.1 Swyddogaeth reoliadol Cyngor Gwynedd	3
1.3.2 Swyddogaeth reoliadol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	3
1.3.3 Diffiniad o Dir Halogedig	3
1.3.4 Asesu Risg	4
1.3.5 Egwyddorion cysyllteddau llygrol	4
1.4 Rhyngweithio â Threfniadau Rheoliadol Eraill i Fynd i'r Afael â Halogiad	5
1.5 Yr Angen am Ymagwedd Strategol	7
1.6 Datblygu'r Strategaeth	8
1.6.1 Yr Uned Rheoli Llygredd – Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd	8
1.6.2 Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd	8
1.6.3 Ymgynghori	8
<b>2 NODWEDDION GWYNEDD</b>	10
2.1 Lleoliad Daearyddol	10
2.2 Disgrifiad cryno o'r ardal	10
2.2.1 Dosbarthiad y Boblogaeth	11
2.3 Tir y mae Cyngor Gwynedd yn berchen arno	11
2.4 Nodweddion y defnydd cyfredol a wneir o'r tir	11
2.5 Hanes a Rheolaeth Datblygu	11
2.6 Lleoliadau dan warchodaeth	12
2.7 Prif fathau o eiddo	12
2.8 Adnoddau Dŵr	12
2.8.1 Hydroleg	12
2.8.2 Hydoddaeareg	12

2.8.3	Ardaloedd Diogelu Ffynhonnell	13
2.8.4	Cyflenwadau Dŵr Cyhoeddus	13
2.8.5	Cyflenwadau Dŵr Preifat	13
2.9	Nodweddion Daearegol Bras	13
2.9.1	Ansawdd Pridd	14
2.9.2	Mwyngloddiau ac Echdynnu Mwynau	14
2.9.3	Radon	14
2.10	Gwybodaeth hysbys ynglŷn â halogiad	15
2.11	Gweithredu sydd eisoes ar waith i drin halogiad tir	15
<b>3</b>	<b>STRATEGAETH ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD: NODAU CYFFREDINOL</b>	16
3.1	Nodau'r Strategaeth	16
3.2	Amcanion y Strategaeth	16
<b>4</b>	<b>BLAENORIAETHAU'R AWDURDOD LLEOL O RAN GWEITHREDU AC AMSERLEN</b>	17
4.1	Y Broses Blaenoriaethu	17
4.1.2	Blaenoriaethu Ardaloedd Daearyddol	17
4.1.3	Blaenoriaethau Is-ardaloedd neu Safleoedd	17
4.2	Amserlen	19
4.3	Golbygiadau Ariannol	19
4.3.1	Dynol	19
4.3.2	Cyllidol	19
<b>5</b>	<b>GWEITHDREFNAU</b>	21
5.1	Trefniadau mewnol ar gyfer rheoli archwilio a nodi	21
5.1.1	Uned Rheoli Llygredd – Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd	21
5.1.2	Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd	21
5.1.3	Rôl yr Aelodau Etholedig	21
5.2	Amlinelliad o'r Weithdrefn Statudol	21
5.2.1	Penderfynu bod tir wedi ei halogi	21
5.2.2	Lle nad oes modd penderfynu'n ddigonol ar arwyddocâd y cysylltedd llygrol	21
5.2.3	Tir allai fod yn safle arbennig	22

5.2.4	Pŵerau Mynediad	22
5.2.5	Cofnod ysgrifenedig o benderfyniad a hysbysiad ffurfiol	22
5.3	Atebolrwydd	23
5.3.1	Dosrannu Costau	23
5.3.2	Cyfyngiadau ar y costau y mae'n rhaid i bersonau priodol eu talu	24
5.4	Y Broses Orfodi	24
5.4.1	Manyleb y Gwaith Adfer	24
5.4.2	Gwaith brys	25
5.4.3	Tir ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol	25
5.4.4	Gwaith adfer y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud	25
5.4.5	Cysyllteddau amddifad	26
<b>6</b>	<b>CASGLU GWYBODAETH</b>	<b>27</b>
6.1	Niwed neu lygredd gwirioneddol i ddyfroedd a reolir	27
6.2	Derbynyddion	27
6.2.1	Pobl	27
6.2.2	Adeiladau	27
6.2.3	Henebion	27
6.2.4	Cnydau amaethyddol a garddwriaethol	27
6.2.5	Cnydau coed	28
6.2.6	Cynnyrch a dyfir gan ddeiliaid tai	28
6.2.7	Da byw amaethyddol, helfilod ac anifeiliaid eraill a berchenogir	28
6.2.8	Derbynyddion ecolegol (gweler Tabl A, Atodiad I, am y diffiniadau)	28
6.2.9	Dyfrhaenau	28
6.2.10	Cyflenwadau dŵr cyhoeddus	28
6.2.11	Cyflenwadau dŵr preifat	28
6.2.12	Mannau tynnu dŵr awdurdodedig eraill	28
6.2.13	Derbynyddion dŵr penodol eraill	28
6.3	Halogwyr	28
6.3.1	Hanes diwydiannol	29
6.3.2	Diwydiant Cyfredol	29

6.3.3	Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Rhan I	29
6.3.4	Sylweddau Peryglus	29
6.3.5	Safleoedd COMAH	29
6.3.6	Safleoedd NIHHS	29
6.3.7	Ffrwydron	29
6.3.8	Safleoedd tirlenwi a phrosesu gwastraff cyfredol	29
6.3.9	Safleoedd tirlenwi a gaewyd	30
6.3.10	Gwaith carthffosiaeth a thir a ddefnyddir i waredu llaid carthion	30
6.3.11	Mwyngloddiau ac echdynnu mwynau	30
6.3.12	Tir gwastraff neu segur	30
6.3.13	Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn	30
6.3.14	Safleoedd halogedig a ddatblygwyd yn flaenorol	30
6.4	Gwybodaeth arall	30
6.5	Gwybodaeth a chwynion	31
6.6	Gwybodaeth a ddarparwyd yn anhysbys	31
6.7	Tystiolaeth Anecdotaidd	31
6.7	Cyfrinachedd	31
6.8	Gwerthuso Gwybodaeth	31
6.8.1	Gwerthuso gwybodaeth ar niwed neu lygredd gwirioneddol	31
6.8.2	Methodoleg Blaenoriaethu Risg	32
6.8.3	Asesu Risg ar safle penodol	32
<b>7</b>	<b>GWEITHDREFNAU CYSYLLTU A CHYFATHREBU CYFFREDINOL</b>	<b>34</b>
7.1	Cysylltu a Chyfathrebu Mewnol	34
7.2	Cyswllt Allanol â Chyrff Statudol	34
7.3	Cyswllt ag Awdurdodau Lleol Eraill	35
7.4	Cyswllt â Budd-ddeiliaid	35
7.5	Cyfathrebu Risg	35
7.6	Trefnu Mynediad i'r Safle	35
7.7	Cysylltiad â Rhai Eraill â Buddiant	35
7.8	Y Wasg a'r Cyfryngau	36

---

<b>8</b>	<b>Y RHAGLEN ARCHWILIO</b>	37
8.1	Materion Lleol	37
8.2	Meini prawf wrth ddewis ardaloedd a safleoedd unigol	37
8.3	Gweithgareddau	37
8.4	Amserlen	37
8.4.1	Adolygiad Ariannol	37
8.5	Trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad manwl	37
8.5.1	Dulliau Archwilio	38
8.6	Cyswllt ynglŷn â safleoedd penodol	38
8.6.1	Ymgynghori â Pherchnogion a phersonau priodol	38
8.6.2	Ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrrff statudol eraill	38
8.7	Safleoedd Arbennig Posibl	38
8.8	Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch	39
8.9	Penodi Ymgynghorwyr	39
<b>9</b>	<b>MECANWEITHIAU ADOLYGU</b>	40
9.1	Ysgogi adolygiad o benderfyniadau sy'n dilyn archwiliad	40
9.2	Adolygu'r Strategaeth Archwilio	40
9.3	Adolygiad Ariannol	40
<b>10</b>	<b>RHEOLI GWYBODAETH</b>	41
10.1	Systemau Storio	41
10.2	Mynediad i Wybodaeth	41
10.3	Y Gofrestr Gyhoeddus	41
10.4	Rheoliadau Gwybodaeth ynglŷn â'r Amgylchedd 1992	41
10.5	Holiaduron Pridiannau Tir Lleol	42
10.6	Ffeiliau Cynllunio	42
10.7	Defnydd Adrannau Eraill y Cyngor o Ganlyniadau'r Archwiliad	42
10.8	Darparu gwybodaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	42
<b>11</b>	<b>GWYBODAETH ARALL I GEFNOGI'R STRATEGAETH</b>	43
11.1	Cysylltiadau yn y Cyngor	43



---

11.2	Ymgynghorwyr Statudol	44
11.3	Ymgynghorwyr Eraill	44
<b>11</b>	<b>CYFEIRIADAU</b>	<b>45</b>

ATODIAD I	TABL A – CATEGORÍAU NIWED SYLWEDDOL
ATODIAD II	TABL B – POSIBILRWYDD SYLWEDDOL O NIWED SYLWEDDOL
ATODIAD III	POTENSIAL SAFLEOEDD I ACHOSI HALOGIAD
ATODIAD IV	DERBYNYDDION ALLAI FOD YN SENSITIF
APPENDIX V	BLAENIORAETHU WARDIAU ETHOLIADOL
ATODIAD VI	RHAGLEN WAITH
ATODIAD VII	GEIRFA

## 1 CYFLWYNIAD

O ganlyniad i'r rhan flaenllaw a chwaraeodd y DG yn y chwyldro diwydiannol a'r ddau ryfel byd cawsom etifeddiaeth hael o dir halogedig. Mae amrywiaeth o amcangyfrifon yn awgrymu y gallai fod halogi diwydiannol neu naturiol fod wedi effeithio ar rhwng 50,000 a 300,000 hectar o dir y DG. Fodd bynnag, nid yw pob achos o halogi yn arwain at broblemau, ac mae'n bosibl na fydd ambell achos yn destun pryder oni bai fod y tir yn cael ei glustnodi at ddibenion arbennig.

Mae sawl ffurf ar halogiad, gan gynnwys halogiad cemegol, biolegol ac ymbelydrol. Gall effeithio ar iechyd dynol neu ar yr amgylchedd, ar ffurf effeithiau tocsig ar bobl a da byw, ataliad ar dwf planhigion, neu briodweddau ffrwydrol allai niweidio adeiladau.

Am y tro cyntaf erioed, mae diwygiadau Adran 57 Deddf yr Amgylchedd 1995 i Ran IIA Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA), wedi cyflwyno dull strategol o nodi tir halogedig.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau statudol ar sut y dylai awdurdod lleol archwilio'i ardal, a'r modd y dylai awdurdod benderfynu a yw darn o dir yn ymddangos iddo fel pe byddai'n halogedig.

Mae'r ddogfen Strategaeth hon yn manylu ar y trefniadau a'r gweithdrefnau y bydd Cyngor Gwynedd yn eu mabwysiadu wrth archwilio tir y Sir i ddod o hyd i halogiad, er mwyn adnabod a symud risgiau annerbyniol i iechyd dynol ac i'r amgylchedd.

### 1.1 Safbwynt y DG: Amcanion y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod bod tir a halogwyd yn y gorffennol yn fygythiad i ddatblygu cynaliadwy, h.y. mae'n fygythiad i'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, dyma yw amcanion allweddol y Llywodraeth sy'n ysgogi'r drefn newydd: -

- Sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad tir wedi eu lleihau i lefel dderbyniol;
- Dychwelyd safleoedd halogedig i gyflwr lle mae modd eu defnyddio'n fuddiol unwaith eto; a
- Sicrhau bod y beichiau ariannol o wneud hyn yn gymesur â'r gwaith, yn hydrin ac yn gynaliadwy yn economaidd.

Y ffordd fwyaf effeithiol o gyflenwi'r amcanion, ym marn y Llywodraeth yw'r ymagwedd 'addas i'w ddefnyddio' sef, y gred y dylid, lle nodwyd risgiau 'annerbyniol' i iechyd dynol neu i'r amgylchedd, seilio gofynion adfer ar ddefnydd cyfredol neu ddefnydd arfaethedig o'r tir, yn ogystal ag ar amgylchiadau'r tir. Fe fydd angen asesu risgiau felly ar sail safleoedd unigol. Mae'r drefn hefyd yn dilyn egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw penderfynu ynglŷn ag atebolrwydd.

#### 1.1.1 Y Safbwynt Cenedlaethol: Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Mae gwella gwasanaethau lleol i'r cyhoedd yng Nghymru a chyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru yn agenda anferth. Cyflawni a chyflenwi gwasanaethau ansawdd uchel i'r cyhoedd sy'n diwallu anghenion a nodwyd yw amcan sylfaenol Rhaglen newydd Cymru ar gyfer Gwella. Mae gofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn cynnal Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae'r rhaglen hefyd wedi ei ymgorffori'n gadarn bellach yng nghyd-destun ehangach rôl arweinydd cymunedol llywodraeth leol a strwythurau gwleidyddol newydd yr awdurdodau lleol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn glynu at ofynion y rhaglen dan sylw.

### 1.2 Y Safbwynt Lleol: Nodau ac Amcanion Corfforaethol Cyngor Gwynedd

Nod y Cyngor yw gwasanaethu trigolion Gwynedd trwy: -

- Wella ansawdd bywyd;

- Gwarchod a chryfhau cymunedau'r Sir;
- Diogelu ei chymeriad unigryw o ran iaith, diwylliant a'r amgylchedd.

Mewn cydweithrediad ag eraill, amcanion y Cyngor yw:

- Darparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau bosibl o'r adnoddau sydd ar gael, yn unol ag anghenion a dyheadau'r bobl;
- Cynyddu cyfleoedd gwaith trwy gefnogi camau i gryfhau'r economi a sicrhau hyfforddiant ac addysg effeithiol i alluogi trigolion y Sir i fanteisio ar y gwaith a grëir;
- Hybu cyfle cyfartal i bawb, lleihau amddifadedd a thlodi a sicrhau gofal a gwarchodaeth a gwella'u hamgylchiadau;
- Diogelu a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir a chyfrannu tuag at ddiogelu'r amgylchedd bydeang;
- Diogelu etifeddiaeth ddiwylliannol y Sir trwy hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn holl weithgareddau'r Cyngor ac yn yr ardal drwyddi draw.

Nid yw gweithredu trefniadau Rhan IIA yn rhywbeth i'w ystyried ar wahân i swyddogaethau, polisiau a strategaethau eraill y Cyngor. Mae hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y dasg o ganiatáu i'r Cyngor symud ymhellach tuag at gwrdd â'i nodau a'i amcanion.

Yn anad dim, wrth grynhoi'r Strategaeth hon, gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gyson ac yn gydnaws â Chynlluniau Statudol y Cyngor a pholisïau sefydliadau sy'n bartneriaid:

- Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Gwynedd;
- Cynllun Datblygu Unedol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Strategaeth Amgylcheddol Cyngor Gwynedd;

- Cynllun Corfforaethol;
- Cynllun Cymunedol;
- Strategaeth Datblygu Economaidd;
- Strategaethau Adfywio Ardaloedd;
- Rhaglen Amcan 1 Gwynedd;
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol;
- Strategaeth Cynhwysiant Cymdeithasol a Gwrth-Dlodi;
- Strategaeth Cefn Gwlad.

### **1.3 Y Cyd-destun rheoliadol**

Daeth y drefn newydd ar gyfer Tir Halogedig, fel y gwelwyd hi yn Neddff Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA), Rhan IIA, adrannau 78A-78YC, a fewnosodwyd gan adran 57 Deddf yr Amgylchedd 1995 i rym yng Nghymru ar 1<sup>af</sup> o Orffennaf 2001.

Yn y lle cyntaf, awdurdodau lleol fydd â'r cyfrifoldeb dros weithredu'r drefn newydd, ac mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i sicrhau y bydd yr ardal yn cael ei archwilio o bryd i'w gilydd er mwyn nodi unrhyw 'Dir Halogedig'. Mae'r canllawiau yn gofyn am ffurfio ymagwedd strategol at raglen archwilio tir dros 15 mis cyntaf gweithredu'r drefn, fesul cam, yn ôl blaenoriaeth.

#### **1.3.1 Swyddogaeth reoliadol Cyngor Gwynedd**

Mae i'r Cyngor dair swyddogaeth rheoliadol gyffredinol mewn perthynas â thir halogedig: -

- Archwilio'r ardal er mwyn nodi tir allai fod yn halogedig;
- Penderfynu a yw unrhyw safle penodol yn halogedig yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth;
- Bod yn Awdurdod gorfodi ar gyfer yr holl dir halogedig nad yw wedi ei ddynodi yn 'safle arbennig'.

Fe fydd rhai safleoedd yn cael eu dynodi yn safleoedd 'arbennig' oherwydd bod ganddynt botensial arbennig i achosi niwed, ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru fydd yn rheoli'r rhain. Pwy bynnag fydd yn rheoli, yn y naill achos a'r llall, yr un fydd y weithdrefn, ac fe fydd y camau hyn yn rhan ohoni: -

- Penderfynu pwy ddylai fod yn gyfrifol am adfer y tir;
- Yn dilyn ymgynghoriad, penderfynu pa waith adfer sy'n ofynnol, a sicrhau bod y gwaith adfer hwn yn digwydd naill ai trwy gytundeb â'r person priodol, neu drwy gyflwyno rhybudd adfer i'r person priodol, neu mewn ambell achos lle ellir cytuno, trwy gyflawni'r gwaith eu hunain;
- Ddosrannu cost y gwaith, gan ddibynnu ar yr atebolrwydd; a
- Cynnal cofrestr gyhoeddus o dir halogedig.

### 1.3.2 Swyddogaeth reoliadol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Gorwedd Sir Gwynedd o fewn ffiniau Rhanbarth Gogleddol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ac mae Swyddfa'r Ardal yn Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd. Eu prif swyddogaethau o ran tir halogedig dan Rhan IIA DDA 1990 fydd: -

- Darparu gwybodaeth berthnasol sydd gan yr Asiantaeth i awdurdodau lleol;
- Cynorthwyo awdurdodau lleol i adnabod tir halogedig, yn enwedig mewn achosion lle ceir llygredd yn y dŵr;
- Sicrhau adferiad Safleoedd Arbennig;
- Cadw Cofrestr Gyhoeddus o Weithrediad Gorfodol ar Safleoedd Arbennig;
- Paratoi adroddiad cenedlaethol ar gyfer tir halogedig;
- Darparu canllawiau o ran tir halogedig i awdurdodau lleol, yn benodol ar gyfer y safle dan sylw;

### 1.3.3 Diffiniad o Dir Halogedig

Disgrifir tir halogedig yn DDA 1990, adran 78A fel a ganlyn:

Unrhyw dir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol y mae'n rhan ohono ei fod, oherwydd y sylweddau sydd ynddo, arno neu oddi tano, yn y fath gyflwr nes bod:

- (a) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu y gallai niwed o'r fath gael ei achosi; neu fod
- (b) llygredd yn cael ei achosi neu yn debygol o gael ei achosi i ddyfroedd a reolir.

Diffinnir 'Niwed' yn y Canllawiau fel 'niwed i iechyd organeddau byw neu unrhyw ryngwyneb (ymyrrol) â'r systemau ecolegol y maent yn rhan ohono, ac yn achos pobl, niwed i'w heiddo'.

Dangosir y categorïau niwed sydd i'w hystyried yn niwed sylweddol i'r math hwnnw o dderbynydd yn Atodiadau I a II. Bwriedir i'r diffiniadau hyn annog cynghorau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddarnau o dir sy'n risg annerbyniol.

### 1.3.4 Asesu Risg

Mae asesu risg yn dechneg generig y mae modd ei chymhwyso i unrhyw sefyllfa beryglus i benderfynu p'un a oes angen gweithredu i leihau neu reoli risg effeithiau andwyol.

O'i defnyddio'n gywir, fe ddylai'r dechneg allu sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu targedu'n effeithiol ar y safleoedd hynny sydd â'r angen mwyaf am weithredu i leihau neu i reoli risgiau annerbyniol i iechyd ac i'r amgylchedd. Fe all absenoldeb asesu risgiau, neu ddefnydd amhriodol o'r dechneg olygu naill ai ein bod yn esgeuluso risgiau sydd o bosibl yn rhai difrifol, neu yn cyflawni gwaith adfer costus a dianghenraid na ellir mo'i gyfiawnhau.

Egwyddor asesu risg yw sail diffinio tir halogedig. Mae'r Canllawiau'n diffinio 'risg' fel cyfuniad o'r canlynol:

- (a) tebygolrwydd, neu amledd y digwydd perygl sydd wedi'i ddiffinio (er enghraifft eiddo yn agored i effaith sylwedd sydd â'r potensial i achosi niwed); a
- (b) maint y canlyniadau (gan gynnwys eu difrifoldeb).

Nod y broses asesu risg, drwyddi draw, yw diffinio'n gynyddol well y berthynas 'ffynhonnell-llwybr-derbynydd' neu'r 'cysyllteddau llygrol' perthnasol hyd nes gallu penderfynu'n hyderus ar yr ymateb mwyaf priodol i ddarganfyddiadau'r broses asesu risg. Mae'r broses hon yn dibynnu'n drwm ar y ffaith fod yn rhaid i'r berthynas rhwng y ffynonellau, y llwybrau a'r derbynyddion fod yn gredadwy os yw risg i fod yn bresennol, a bod yn rhaid cysylltu'r credadwyedd hwnnw â graddfa amser ddiffiniedig. Er enghraifft, gellir ystyried cysyllteddau llygrol naill ai yng nghyd-destun defnydd cyfredol a lleoliad amgylcheddol y tir, neu yng nghyd-destun defnydd a lleoliad y tir yn y dyfodol.

Yn nodweddiadol, mynegir asesiad risg yn nhermau'r pedwar cam cysyniadol a ganlyn: -

Adnabod y Perygl	Adnabod y ffynonellau, y llwybrau a'r derbynyddion halogol; (cysyllteddau llygrol), gan ystyried y lleoliad amgylcheddol a'r defnydd a wneir neu y bwriedir ei wneud o'r safle
Amcangyfrif Risg	Amcangyfrif y risg(iau) y bydd derbynydd(ion) a nodwyd yn dioddef niwed dan amgylchiadau diffiniedig. Noder bod modd mynegi'r risg yn eiriol (e.e. mae'r risgiau yn isel neu'n uchel) neu (yn llai aml) yn feintiol.
Asesu'r Perygl	Ystyried credadwyedd cysyllteddau llygrol a phenderfynu beth yw'r risgiau posibl i iechyd a'r amgylchedd
Gwerthuso Risg	Gwerthuso'r angen i weithredu i reoli risg (h.y. mesurau lleihau neu reoli risg) gan ystyried natur a maint y risgiau gwirioneddol neu ddisgwyliedig, unrhyw ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r proses asesu a, lle bynnag y bydd gofyn am unrhyw weithredu pellach, costau a manteision y gweithredu hwnnw yn fras.


Camau cysyniadaol asesu risg (BSI 01, 2001).

### 1.3.5 Egwyddorion cysyllteddau llygrol

Er mwyn i dir gyflawni'r diffiniad o dir halogedig a geir yn y ddeddfwriaeth, mae'n rhaid sicrhau bod yna gysylltedd llygrol. Mae cysylltedd llygrol neu gysylltedd llygrol sylweddol, yn cynnwys pob un o'r tair elfen ganlynol:

- (a) mae halogyn neu ffynhonnell yn sylwedd a geir yn y tir, arno neu oddi tano, sydd â'r potensial i achosi niwed, neu lygru dyfroedd a reolir;
- (b) mae derbynydd, yn organedd byw, yn grŵp o organeddau byw, yn system ecolegol neu yn ddarn o eiddo, ac mae'r Canllawiau yn eu cyfyngu i bum categori. Rhaid iddo fod:
  - i. mewn categori a restrir yn Atodiad I fel math o dderbynydd, ac
  - ii. yn rhywbeth sy'n cael ei niweidio, neu y gellid ei niweidio gan halogyn; neu yn ddyfroedd a reolir sydd yn cael eu llygru, neu y gellid eu llygru gan halogyn.
- (c) Mae llwybr yn enw ar un neu ragor o gyfryngau neu ddulliau sy'n caniatáu i dderbynydd fod yn agored i niwed neu i effaith halogyn, neu a allai ganiatáu iddo fod yn agored i niwed neu effaith o'r fath.

Nid oes angen gweld y llwybr yn uniongyrchol, gan ei fod yn bosibl nodi'r elfen hon ar sail asesiad rhesymol o wybodaeth wyddonol gyffredinol ynghylch natur halogwyr penodol. **Fodd bynnag, ni ellir nodi'r elfennau hyn ar wahân, ac ni ellir nodi llwybr credadwy oni bai ei fod yn bosibl gwneud derbynnydd a nodwyd yn agored i niwed gan halogwyr a nodwyd.**



Cysylltedd Llygrol Sylweddol

#### 1.4 Rhyngweithio â Threfniadau Rheoliadol Eraill i Fynd i'r Afael â Halogiad

Nod pennaf y Llywodraeth yw atal halogiad dan amgylchiadau newydd. Mae nifer o sefyllfaoedd lle byddai'r ddeddfwriaeth rheoli llygredd bresennol yn gymwys.

- **Rheoli Cynllunio a Datblygu**

Mae'r sistem gynllunio yn ceisio lleihau y risgiau o beryglon naturiol a rhai a greuwyd gan ddyn, gan gynnwys risg o dir halogedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru 2002 yn ei wneud yn orfodol i awdurdodau lleol sicrhau fod datblygiad yn addas, a bod cyfyngderau ffisegol y tir yn cael eu hystyried yn ystod pob rhan o'r broses gynllunio. Rhagwelir y bydd Nodiad Cynllunio Technegol yn delio yn benodol â materion yn ymwneud a thir halogedig yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol agos. Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried halogiad wrth baratoi eu cynlluniau datblygu. Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd sydd yn cael ei baratoi yn cynnwys polisi fydd yn ceisio sicrhau y bydd datblygiad yn ymwneud â'g ail ddefnyddio tir halogedig ond yn cael ei gymeradwyo os fydd archwiliad safle, asesiad risg a gweithrediad adferol boddhaol yn cael ei gyflawni i ddelio â'g unrhyw risg. Rheolir gwaith adfer o'r fath yma drwy'r sistem gynllunio ac nid Rhan IIA DDA 1990. Bwriedir i waith adfer dan Ran IIA drin y defnydd presennol o'r tir yn unig.

- **Rheoli Adeiladu**

Dan ddarpariaethau Rheoliadau Adeiladu 1991, fe all yr awdurdod lleol ofyn am amddiffyniad addas i ddiogelu adeiladau newydd a'u preswylwyr rhag effeithiau halogiad tir. Fe fydd Arolygwyr Rheoli Adeiladu yn dilyn y canllawiau a geir yn Nogfen C – *'Site Preparation and Resistance to Moisture'* wrth ystyried ceisiadau i godi adeiladau. Pan fwriedir dechrau ar ddatblygiad newydd, y prosesau Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu fydd yn trin yr ymchwiliad a'r adfer priodol fel arfer, ac nid trefniadau Rhan IIA.

- **Diogelwch Bwyd**

Mae gofyn i Awdurdodau sy'n defnyddio grymoedd Rhan IIA gysylltu â'r Asiantaeth Safonau Bwyd â'g Adran Amaeth a Materion Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch unrhyw ddefnydd a wna'r cyrff hynny o'u grym i reoli dan Ran I Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985.

- **Iechyd a Diogelwch**

Gall materion iechyd a diogelwch godi dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ar unrhyw safle lle ceir risg y gallai'r gweithwyr fod yn agored i halogiad. Mewn achos o'r fath, rhaid i awdurdodau dan Ran IIA o DDA 1990 gysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau na fydd unrhyw ddyblygu ar y rheoli ac y bydd y sistem rheoli fwyaf priodol yn cael ei defnyddio i drin y broblem.

- **Peryglon damweiniau mawr**

Mae Rheoliadau (Rheoli Peryglon damweiniau mawr) 1999 (COMAH) yn gofyn am gynlluniau gweithredu o ran sylweddau peryglus sy'n cael eu cadw ar safleoedd, gan ddarparu ar gyfer y camau y dylid eu dilyn pe

byddai'r sylweddau'n gollwng oddi yno. Dylai awdurdodau dan Ran IIA Deddf 1990 hefyd gysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n gyfrifol am oruchwylio cynlluniau o'r fath.

- **Treth Tirlenwi**

Fe fydd treth tirlenwi, dan Ddeddf Ariannu 1996 fod yn daladwy ar unrhyw wastraff sy'n cael ei gludo i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, gellir eithrio gwastraff o safleoedd halogedig, neu rai a gafodd eu hadfer fel rhan o ddatblygiadau arbennig. Fodd bynnag, ni fydd yr eithriad yn berthnasol i unrhyw un sy'n glanhau safle fel rhan o weithrediad gorfodi dan Ran IIA DDA 1990, er y bydd ar gael i'r rhai sy'n glanhau safle'n wirfoddol. Bwriedir i hyn fod yn ysgogiad ariannol i lanhau'n wirfoddol.

- **Rheoli Llygredd Integredig (IPC) / Atal a Rheoli Llygredd (PPC)**

Mae nifer o safleoedd diwydiannol yn destun rheolaeth reoliadol dan y Drefn IPC a geir yn Rhan I DDA 1990, ac a orfodir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol. Fe all safleoedd a'u rheolwyd gan yr uchod gael eu delio gyda o dan rai amgylchiadau o dan Rhan IIA. Yn benodol, os ydi'r halogiad yn arwain at niwed sylweddol neu llygredd o ddyfroedd rheoledig a ellir fod yn gysylltiedig â gweithgareddau sy'n deillio o broses heb 'reolaeth ganolog', neu i weithgareddau a'u hawdurdodwyd dan 'reolaeth ganolog' ond sydd wedi darford erbyn hyn h.y. halogiad hanesyddol. Gall safleoedd a'i rheolwyd gan yr uchod fod yn ddarpar safle arbennig yn rhinwedd Rheoliad 2(d).

- **Rheoli Gwastraff**

Gorfodir y drefn yma gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Fel arfer, ni fydd niwed sylweddol na llygredd i ddyfroedd a reolir sy'n codi mewn perthynas â thir sy'n destun trwydded rheoli gwastraff hefyd yn destun Trefn Rhan IIA. Fe fydd y sefyllfa yn cael ei thrin trwy'r amodau a osodir ar y drwydded. Fodd bynnag, pan fydd modd priodoli'r niwed neu'r llygredd i achos arall yn hytrach nag i dor-drwydded safle, neu os yw'n codi o weithredu y mae'r drwydded yn ei awdurdodi, fe fydd Rhan IIA DDA 1990 yn berthnasol.

Ni all yr awdurdod lleol (neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn achos 'safleoedd arbennig') ddefnyddio Rhan IIA mewn perthynas â thir halogedig sy'n codi o ganlyniad i waredu gwastraff rheoledig yn anghyfreithlon. Ceir grymoedd rheoli gwastraff i symud y gwastraff a thrin y canlyniadau mewn amgylchiadau o'r fath.

Fodd bynnag, mae'n bosibl mai gwastraff (neu wastraff arbennig, hyd yn oed) fydd y deunydd sy'n cael ei symud fel rhan o weithred adfer dan Ran IIA, felly fe fydd angen trwydded neu weithdrefn cydymffurfio arall.

- **Niwsans statudol**

Hyd nes rhoddwyd Rhan IIA ar waith, darpariaethau Niwsans Statudol Rhan II DDA 1990 oedd y prif fecanwaith rheoli wrth drin tir halogedig. Fe fydd y drefn niwsans statudol yn parhau i fod yn berthnasol o ran gwaredu sylweddau ar dir os yw hynny'n tramgwyddo'r synhwyrau dynol (er enghraifft arogleuon) ac yn achosi niwsans, ond bellach, ni all unrhyw dir 'halogedig' fod yn niwsans statudol.

- **Llygru dyfroedd**

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd rymoedd dan Adran 161A-161D Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Maent yn eu galluogi hwy, fel yr awdurdod sy'n rheoli dŵr, i gyflwyno rhybudd gwaith i'r sawl sy'n gyfrifol am lygru dŵr, gan ofyn eu bod yn ei lanhau a hefyd yn glanhau'r holl ganlyniadau. Yn ogystal â hyn, gellir defnyddio'r rhybudd i atal llygredd disgwylidig i'r dŵr cyn iddo ddiwydd.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi datganiad polisi, a gytunwyd â DEFRA (y DETR gynt), dan yr enw 'Environment Agency Policy and Guidance on the Use of Anti Pollution Works Notices'. Mae'r ddogfen



hon yn manylu ar sut y bydd yr Asiantaeth yn trin achosion lle ceir gorgyffwrdd rhwng grymoedd y Ddeddf uchod a threfn Rhan IIA.

- **Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)**

Mae yn nod gan Cyngor Gwynedd i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill ynghyd â'u rhaglenni gwaith, ble mae yna botensial i groesi gyda chyfrifoldebau yr Awdurdod o dan Ran IIA o DDA 1990. O berthnasedd penodol yw Rhaglen Adeniliad Tir y WDA, sydd ar gael i'r sectorau cyhoeddus a phreifat, ble nod yr Awdurdod yw i sicrhau ail ddefnydd o dir diffaith drwy adferiad. Gwelir y dasg yma gan yr Awdurdod fel un sydd yn ganolog i adfywiad economi Cymru. Ar gyfer dibenion grant, ddiffinnir 'tir diffaith' fel "tir sydd wedi ei ddifrodi gan ddefnydd diwydiannol neu eraill flaenorol, fel na all gael ei ddefnyddio heb ei drin". Mae'n rhaid, felly, i'r safle fod wedi ei ddatblygu o'r blaen â'i ddefnydd wedi dod i ben, a sydd mewn angen ei glirio neu ei adfer i unrhyw ddatblygiad pellach fedru cymryd lle. Nid yw'r grant yn ymestyn i safleoedd sydd â diffeithwch naturiol, neu waith sydd yn dod o dan amodau adferiad gorfodol neu ofynion statudol (gan gynnwys rhybuddion adferol). Fe wnaiff y WDA, fodd bynnag, ystyried ceisiadau i gynorthwyo unrhyw waith cymwys ychwanegol sydd ei angen i sicrhau adferiad llwyr o safle halogedig ar gyfer dibenion newydd. Mae'r WDA yn gwerthuso pob cais ar sail anghenion lleol, gwerth am arian, blaenoriaeth y prosiect, ac os oes cyllid ar gael ar gyfer prosiectau o'r fath yn y flwyddyn ariannol ble y telir y grant.

### 1.5 Yr Angen am Ymagwedd Strategol

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o ran archwilio'r ardal y mae'n ei rheoli, gofynnir i'r Awdurdod fabwysiadu ymagwedd strategol. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan y dylai'r ymagwedd hon:-

- fod yn rhesymegol, yn drefnus ac yn effeithlon;
- fod gymesur â difrifoldeb unrhyw risg gwirioneddol neu bosibl;
- geisio sicrhau bod y problemau mwyaf taer a difrifol yn cael eu dynodi gyntaf;
- sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar archwilio ardaloedd lle mae'r Awdurdod mwyaf tebygol o ddod o hyd i dir halogedig; a
- sicrhau bod yr Awdurdod yn nodi'n effeithiol y gofynion ynglŷn ag archwiliad manwl o dir.

Wrth ddatblygu a mabwysiadu ei ymagwedd strategol, mae'r Canllawiau Statudol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cyhoeddi yn gofyn i'r Awdurdod ystyried y canlynol:-

- (a) Unrhyw dystiolaeth sydd ar gael bod niwed sylweddol neu lygredd i ddyfroedd a reolir yn cael ei achosi mewn gwirionedd;
- (b) I ba raddau y bydd unrhyw dderbynnydd (sydd naill ai yn fath a restrir yn Atodiad I & II, neu yn un mewn dyfroedd a reolir) yn debygol o fodoli yn unrhyw un o wahanol rannau ardal yr awdurdod;
- (c) I ba raddau y mae unrhyw un o'r derbynnyddion hynny yn debygol o fod yn agored i effeithiau halogwyr (yn ôl y diffiniad a geir yn Atodiad I & II), er enghraifft, o ganlyniad i ddefnyddio'r tir neu i nodweddion daearegol neu hydrodaearegol yr ardal;
- (d) I ba raddau y mae gwybodaeth ar halogiad tir eisoes ar gael;
- (e) Hanes, graddfa a natur y gweithgareddau diwydiannol neu'r gweithgareddau eraill allai fod wedi halogi'r tir mewn gwahanol rannau o'r ardal;
- (f) Natur ac amseriad ailddatblygu yn y gorffennol mewn gwahanol rannau o'r ardal;
- (g) I ba raddau y mae'r awdurdod neu eraill eisoes wedi cyflawni gwaith adfer er mwyn trin problemau halogiad tir, neu i ba raddau y maent yn debygol o wneud hynny fel rhan o raglen ailddatblygu sydd ar fin digwydd; a'r

- (h) Y graddau y mae awdurdodau rheoli eraill yn debyg o ystyried posibilrwydd niwed i dderbynyddion penodol neu'r tebygolrwydd o unrhyw lygredd i ddyfroedd a reolir mewn rhan benodol o ardal yr awdurdod lleol.

## **1.6 Datblygu'r Strategaeth**

### **1.6.1 Yr Uned Rheoli Llygredd – Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd**

Gan Uned Rheoli Llygredd Adain Gwarchod y Cyhoedd yr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r ddogfen Strategaeth gorfforaethol hon ac am weithredu'r gweithrediadau dilynol, gan gynnwys nodi ac archwilio tir halogedig a sicrhau gwaith adfer arno dan Ran IIA. Datblygwyd y Strategaeth gan ddilyn y Canllawiau Statudol a'r Nodyn Cyfarwyddyd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi eu cyhoeddi ar Strategaethau Archwilio (gweler y siartlif ar dudalen 8).

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i Swyddogion yn yr Uned Rheoli Llygredd ymgymryd â'r archwiliadau angenrheidiol, samplo, a lle bo'n briodol, gorfodi. Alwyn Roberts, y Swyddog Llygredd fu'n swyddog arweiniol yn ystod cyfnod paratoi'r Strategaeth. Mae ei fanylion cysylltu i'w gweld ym Mhennod 11.

### **1.6.2 Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd**


Dogfen gorfforaethol yw'r Strategaeth hon, ac yn dilyn ei chyflwyno i Dîm Rheoli'r Cyngor fis Hydref 2001, sefydlwyd Gweithgor Tir Halogedig i lywio gweithredu Rhan IIA, ac i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â materion cyfreithiol a thechnegol y Canllawiau Statudol. Ymhlith cyfranogwyr y Gweithgor mae swyddogion o amryw o Adrannau'r Cyngor, a chynrychiolwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

### **1.6.3 Ymgynghori**

Yn ogystal ag ymgynghori mewnol eang trwy'r Gweithgor Tir Halogedig a thrwy Adrannau eraill y Cyngor, ymgynghorwyd hefyd â'r sefydliadau canlynol wrth baratoi'r Strategaeth hon – Asiantaeth yr Amgylchedd, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau lleol cyfagos.

Gellir gweld Strategaeth Archwilio Cyngor Gwynedd yn llyfrgelloedd y Sir, y Swyddfeydd Ardal neu trwy Wefan yr Awdurdod ar [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk).

Dilynyd y broses a ddangosir gan y siartlif isod wrth baratoi'r Strategaeth Archwilio yma:






## 2 NODWEDDION GWYNEDD

Mae'r Bennod hon yn cyflwyno golwg gyffredinol ar brif nodweddion Gwynedd, ei daearyddiaeth, ei hanes, ei daeareg, ei hydroleg, defnydd o'i thir ac ati.

### 2.1 Lleoliad daearyddol



Gorwedd Sir Gwynedd yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r môr yn ffin iddi i'r gogledd a'r gorllewin, Sir Conwy i'r dwyrain a Cheredigion i'r de. Rhyw 79km o'r de i'r gogledd ac 88 km o'r dwyrain i'r gorllewin yw maint y Sir, ac mae iddi arwynebedd o ryw 254,800 hecтар, gyda 174,200 hecтар ohoni'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

### 2.2 Disgrifiad cryno o'r ardal

Yn hanesyddol, roedd yr ardal yn gymysgedd o gefn gwlad a chymunedau chwareli. Dros y blynyddoedd, fe gaedd y chwareli llechi a'r mwynloddiau, ac mae'r Sir bellach yn un wledig a mynyddig. Prif ganolfannau trefol y Sir yw: Bangor a Chaernarfon yn y gogledd, Pwllheli yn y gorllewin, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn y canol, a Thywyn a Dolgellau yn ne'r Sir.

### 2.2.1 Dosbarthiad y Boblogaeth

116,600 oedd yr amcangyfrif o boblogaeth breswyl y Sir yn 2000, sef tua 4% o boblogaeth Cymru. Gan Wunedd mae'r dwysedd poblogaeth isaf ond un yng Nghymru, sef 46 o bobl i bob milltir sgwâr. Yn ystod cyfrifiad 1991, 8 canolfan poblogaeth oedd â mwy na 2000 o drigolion:

<i>Bangor</i>	<i>11,187</i>
<i>Caernarfon</i>	<i>9,690</i>
<i>Blaenau Ffestiniog</i>	<i>5,356</i>
<i>Bethesda</i>	<i>4,279</i>
<i>Porthmadog</i>	<i>4,003</i>
<i>Pwllhel</i>	<i>3,972</i>
<i>Tywyn</i>	<i>3,017</i>
<i>Dolgellau</i>	<i>2,632</i>

### 2.3 Tir y mae Cyngor Gwynedd yn berchen arno

Mae'r Awdurdod (â'i ragflaenwyr) yn berchen ar amryw, neu'n meddiannu neu wedi bod yn berchen neu wedi dal nifer helaeth o adeiladau a daliadau tir yn yr adral. Ymhlith y portffolio bresennol, mae gan y Cyngor: -

- 123 o Ysgolion
- 7,163 o Dai Cyngor
- 17 o Lyfrgelloedd Cyhoeddus
- 18 o Gyfleusterau Hamdden
- 54 o Fân-ddaliadau
- 2,600km (tua) o ffyrdd sirol.
- Dros 4,000 hectar o gyfanswm tir

### 2.4 Nodweddion y defnydd cyfredol a wneir o'r tir

Ac eithrio at ddiben codi tai, ar gyfer amaethyddiaeth y defnyddir tir y Sir yn bennaf, gydag ychydig yn unig o safleoedd diwydiannol wedi eu gwasgaru yma a thraw o amgylch y Sir. Yn hanesyddol, defnyddiwyd darnau mawr o dir yn y Sir i storio llechi a gwastraff o'r chwareli – nid oes modd defnyddio'r tir yma ymhellach, gan fod y gwastraff yn gwneud y tir yn anaddas i'w ddefnyddio.

### 2.5 Hanes a Rheolaeth Datblygu

Cyn dyfodiad rheolaeth gyhoeddus dros ddefnydd a datblygu tir, roedd tîrfeddianwyr bron yn rhydd i ddefnyddio tir fel y mynnent. Dylanwadodd nifer o ffactorau ar ddatblygiad ffisegol yr ardal weinyddol a adnabyddir fel Gwynedd. Mae'r ffactorau yma yn cynnwys datblygiad y diwydiant chwareli; gwelliant mewn cysylltiadau, twf yn y diwydiant twristiaeth, â chynnydd cyffredinol mewn masnach. O ganlyniad, daeth anheddiadau newydd i fodolaeth a datblygodd y cymunedau hyn ymhellach.

Ers hanner olaf y ganrif ddiwethaf, mae fframwaith defnydd tir wedi ei ddarparu drwy'r sustem gynllunio tref a gwlad. Y brif ddeddf gynllunio ydi'r Ddeddf Gynllunio Tref a Gwlad 1990. Nod y ddeddfwriaeth yw i sicrhau y defnydd mwyaf effeithlon ag effeithiol tir sydd yn niddordeb y cyhoedd. O dan y ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau datblygu, sydd yn dynodi y modd y dylai fod tir yn cael ei ddefnyddio. Mae'r ddeddfwriaeth yn golygu y dylai fod penderfyniadau cynllunio yn gyson â'r cynllun datblygu, os nad yw ystyriaethau materol yn awgrymu'n wahanol.

Mewn ymateb i faterion cynllunio yn y 1960au a'r 1970au, nodweddwyd strategaethau cynlluniau datblygu ar Ardaloedd Twf yn seiliedig ar ddwysedd tyfiant cyflogaeth newydd mewn ardaloedd penodedig, cyfyngu rhan fwyaf o dai newydd i ganolfannau twf a phentrefi cyfagos, gyda ataliaeth mewn ardaloedd eraill; gwelliannau yn y rhwydwaith drafnidiaeth; cyfyngu, yn gytbwys, twf mewn twristiaeth, ar angen am gadwraeth tirluniau cefngwlad a

threfol. Fodd bynnag, yng ngwyneb newidiadau yn amgylchedd weithredu'r 1980au a'r 1990au, fe gyflwynwyd y cysyniad o dwf reoliedig. Felly, amcan strategaethau datblygu cyfredol Gwynedd yw i annog datblygiad cytbwys ar gyfer yr holl ardal, tra'n cryfhau y rôl o ganolfannau ffocal.

## 2.6 Lleoliadau dan warchodaeth

Mae rhan helaeth o Wynedd wedi ei ddynodi'n unai'n Barc Cenedlaethol Eryri, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Pwysig, Arfordir Treftadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadol byd-eang neu yn dirlun cynhenid neu o werth amgylcheddol.

Mae yma 66 o safleoedd wedi eu dynodi yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol neu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a 1,500 o safleoedd pellach wedi eu dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur. Mae un safle yn yr ardal wedi ei ddynodi yn Ardal Gadwraeth Arbennig, tra bod 5 safle arall wedi eu dynodi yn ddarpar Ardaloedd Arbennig ar gyfer Cadwraeth – gyda 3 ohonynt yn safleoedd morol – sef Pen Llŷn a'r Sarnau, Aber Menai ac Afon Menai. Mae 88km o arfordir yr awdurdod wedi ei nodi'n Arfordir Treftadol.

Dynodiad	Ardal (Hectarau)
Parc Cenedlaethol	174,200
Ardaloedd o Harddwch Naturiol Pwysig	15,500
Warchodfeydd Natur Cenedlaethol	4,891
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	33,215
Ardaloedd Sensitif Amgylcheddol	45,400
Arfordir Treftadol	88 kilomedr

## 2.7 Prif fathau eiddo

Ceir yn yr awdurdod dros 2,500 o adeiladau rhestredig y mae Cadw wedi'u cofrestru, ac mae 211 safle pellach yn Safleoedd Henebion Rhestredig.

Mae llawer iawn o'r stoc dai yn anaddas ar gyfer anghenion cyfoes, a dros 50% o'r stoc wedi eu hadeiladu cyn 1919 at ddefnydd chwarelwyr.

## 2.8 Adnoddau Dŵr

**Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi darparu gwybodaeth amgylcheddol ar ffurf mapiau digidol sydd yn cynnwys manylion ar ansawdd dŵr. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer asesu problemau sydd â'r potensial i lygru dyfroedd a reolir.**

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi trwyddedu dros 300 o fannau tynnu dŵr wyneb yng Ngwynedd.

### 2.8.1 Hydroleg

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfrifol am fesur ansawdd dŵr o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, a dosberthir afonydd Gwynedd yn erbyn y Cynllun Asesu Ansawdd Cyffredinol (GQA).

Un o'r afonydd pwysicaf yng Ngwynedd yw daliad yr Afon Ddyfrdwy, sydd gyda enw da rhyngwladol am gadwraeth a hamdden. Mae'r Afon Ddyfrdwy ei hun yn adnodd hynod werthfawr, fe honir iddi fod yr afon a reolir fwyaf yn Ewrop gan ei bod yn darparu dŵr yfed i dros 2 filiwn o bobl.

## 2.8.2 Hydroddaeareg

**Y mapiau perthnasol ar gyfer ardal Gwynedd a gynhyrchir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar Fannau Dŵr Daear Fregus yw taflenni 14, 15 ac 20. Mae'r mapiau yma yn dangos dominyddiaeth o is ddyfrhaenau a 'di' ddyfrhaenau ar hyd y Sir, ar wahan i'r Galchfaen Carbonifferaidd yn ardal Bangor a Felinheli, sy'n cynrychioli dyfrhaen sylweddol. Fodd bynnag, fe ddylai gael ei nodi y gall 'di' ddyfrhaen mewn enw gynnwys digon o ddŵr i gynnal cyflenwadau domestig bychain a sydd felly yr un mor sensitif i lygredd.**

## 2.8.3 Ardaloedd Diogelu Ffynhonnell

Er ei bod ond yn is ddyfrhaen y prif Ardal Diogelu Ffynhonnell yng Ngwynedd yw ffynnon Dŵr Cymru Welsh Water ar gyfer cyflenwad preifat yn Nant Peris, sy'n tynnu dŵr o sustem o ddyfrhaenau toredig iawn sy'n agos at yr wyneb yn y Twff Ordofigaidd, a sy'n hawdd ei lygru gan ei fod mor fas.

## 2.8.4 Cyflenwadau Dŵr Cyhoeddus

**Dŵr Cymru Welsh Water sy'n cyflenwi dŵr yfed i brif drefi a phentrefi'r Sir. Y prif adnoddau dŵr yng Ngwynedd yw Llyn Cwellyn, Llyn Marchlyn Bach, Llyn Ffynnon Llugwy, Llyn Cwmystradllyn, Afon Dwyfor (Dolbenmaen), Llyn Cwm Dulyn, Llyn Tecwyn Uchaf, Llyn Eiddew Mawr, Llyn Bodlyn, Llyn Cynwch, Llyn Morwynion, Llyn Arenig Fawr, Afon Fathew (Bryncrug, Tywyn), Afon Gwrl ac Afon Calettwr (Llwyngwrl). Ni cheir unrhyw ffynonellau cyflenwad dŵr yfed i'r cyhoedd a dynnir o'r dŵr daear o fewn yr Awdurdod.**

## 2.8.5 Cyflenwadau Dŵr Preifat

**Mae gan nifer fawr o anheddau yn yr ardaloedd gwledig gyflenwad dŵr preifat, mae'r Awdurdod yn profi rhai ohonynt yn reolaidd i fonitro ansawdd y dŵr.**

## 2.9 Nodweddion Daearegol Bras

Mae i Wynedd le heb ei ail yn hanes daeareg. Ni welir yr amrywiaeth anarferol o ffurfiannau creigiau o amrediad amser mor eang yn yr un man o'r un faint drwy'r byd. Nid oes syndod felly bod enwau sawl un o'r cyfnodau daearegol a'r systemau creigiau a ffurfiwyd ynddynt yn tarddu o Wynedd.

Mae'r creigiau yn ardal Bangor, Llanberis a Bethesda yn gasgliad hynafol o greigiau gwaddod sy'n cynnwys amryfeini, tywodfeini caled a llechi glas, porffor a choch. Defnyddiwyd yr enw Rhufeinig ar Gymru a'i galw'n



System Greigiau Cambrian. Ceir parth ehangach o greigiau Cambrian, dan yr enw Cromen Harlech, mewn ardal oddeutu 310 km sgwâr â Mynyddoedd yr Arenig i'r dwyrain, a threfi Dolgellau, Abermaw, Harlech, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn gylch o'i hamgylch.

Mae creigiau hyd yn oed yn hŷn a mwy crisialog na hwy, creigiau a enwir, yn rhesymegol, y Creigiau Cyngambrian, yn cynnal y creigiau Cambrian ar hyd lannau Llyn Padarn. Mae'r creigiau hyn yn dyddio o 590 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac mae'r rhai hynaf oll yn dyddio o bron i 4 biliwn o flynyddoedd yn ôl. Yn Nant Ffrancon, Nant Peris a Rhyd-ddu, gwelir creigiau Cambrian yn codi fesul haen yn ffurfiannau ieuengach o lechi du a llwyd, tywodfaen a thrwch mawr o greigiau folcanig a chreigiau igneaid ymwithiol. Oherwydd eu hamlder ym mherfeddion Eryri, gelwid hwy yn 'System Greigiau Ordofigaidd', â'r enw'n deillio o'r Ordofigiaid, sef llwyth Celtaidd oedd yn trigo yn y rhan fynyddig hon o Gymru adeg y Goncwest Rhufeinig.

Mae enw'r Cyfnod Silwraidd dilynol yn tarddu o'r Silwriaid, a oedd yn trigo mewn llawer man yng nghanolbarth Cymru, gan gynnwys rhannau deheuol a dwyreiniol o Wynedd. Ceir creigiau Silwraidd, tywodfeini, creigiau llaid a llechi yn bennaf, ar hyd ffiniau Gwynedd o Gorwen i Fachynlleth, ac fe orweddant ar ben y creigiau hŷn yn y gorllewin.

Ar ddiwedd cyfnod y Silwriaid, fe arweiniodd gwrthdrawiad rhwng y cyfandiroedd at wasgu ac anffurfio'r haenau creigiau yn donnau neu'n blygion. Mae isblyg neu synclin amlwg yng Nghwm Idwal, ac uwchblyg ysblennydd i'w weld o ffordd A5 yng Nghwm Tryfan gerllaw. Creigiau'r oes Garbonifferaidd, yn galchfeini ar lan Afon Menai yn bennaf, sy'n cynrychioli daeareg mwy diweddar Gwynedd.

Mae newidiadau sydyn yng nghymeriad topograffig Gwynedd yn nodwedd nodedig mewn sawl rhan o'r Sir. Arwyddion arwynebol yn unig yw'r rhain o'r toriadau neu'r ffawtiau mawr sy'n treiddio'n ddwfn i gramen y Ddaear. Ffawt Dinorwig rhwng Caernarfon a Bangor oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am ffurfio gulfor Afon Menai. Mae cyfres o ddyffrynnoedd trawiadol o brydferth gan gynnwys Bwlch Tal-y-Llyn yn ganlyniad i ardal eang o greigiau wedi'u mathru sy'n ymestyn o Gorwen, trwy Lyn Tegid ac ardal Dolgellau i Fae Ceredigion. Fe achosodd symudiad ar y ffawtiau hyn yn y gorffennol ddaeargrynfeydd cyson yn hanes daearegol Gwynedd. Pery'r rhain yn achlysurol hyd heddiw.

(Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno cydnabod cyfraniad Dr. Margaret Wood, Prifysgol Cymru Bangor tuag at y darpariaeth o wybodaeth daearegol).

### 2.9.1 Ansawdd Pridd

Cwblhawyd Arolwg Pridd Lloegr a Chymru rhwng 1978 a 1983 er mwyn darganfod cyfanswm a swm echdynadwy o elfennau arlliw o bwysigrwydd biolegol mewn samplau pridd drwy Gymru a Lloegr. Yr oedd disgwyl i'r samplau gynrychioli eu prif gyfres bridd ac asesu eu gwenwyndra a diffygiant o rai elfennau mewn priddoedd a all fod â'r potensial i effeithio anifeiliaid yn pori a chynhyrchiant cynydau â'r.

Y prif ddi-ddordeb oedd mewn tir amaethyddol, a gwnaed dim ymdrech i lunio strategaeth samplo i gynnwys ardaloedd trefol yn ddigonol. Yr oedd disgwyl i'r grid 5km gynhyrchu oddeutu 6,200 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr. Yn y digwyddiad, ymwelwyd a 6,127 o safleoedd, a chasglwyd 5,691 o samplau. Bydd canlyniadau'r arolwg yma yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i gynorthwyo i bennu targedau ar gyfer priddoedd halogedig.

### 2.9.2 Mwyngloddiau ac Echdynnu Mwynau

Manteisiwyd yn economaidd ar y rhan fwyaf o'r dyddodiadau daearegol yng Ngwynedd i ryw raddau.

Bu mwyngloddio am fetelau anfferus megis aur, arsenig, copr, plwm, sinc, cadmiwm a manganîs yn y Sir o ddyddiau'r Oes Efydd hyd heddiw. Bu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gweithgareddau yma yn eang. Yn dilyn cau'r mwyngloddiau metel yng Nghymru o ganlyniad i'r crebachiad wedi'r chwyldro diwydiannol, dygwyd ein sylw tuag at yr hyn yr ydym wedi ei etifeddu o ganlyniad i weithgareddau o'r fath.

Yn yr ardaloedd mynyddig lle roedd chwareli llechi a cherrig yn bennaf y ceir hanes diwydiannol yr ardal. Ar ddechrau'r Ganrif ddiwethaf, roedd 18,000 o bobl yn gweithio mewn chwareli llechi, ac erbyn diwedd y 1990, ychydig gannoedd yn unig oedd yn gweithio yn y chwareli oedd ar ôl.

Mae'r chwareli wedi serio'u nod ar yr ardal, gyda 'mynyddoedd' o wastraff llechi i'w gweld mewn sawl man. Mae'r gwastraff hwn i'w weld ar rannau mawr o dir mynyddig yr ardal. Defnyddid llechi o'r chwareli ar gyfer

toeau'r rhan fwyaf o adeiladau'r ardal ers talwm, a chludid hwy i ardaloedd eraill i'w defnyddio yn yr un modd. Mae'r fasnach hon yn parhau hyd heddiw, er nad oes ond nifer fechan o'r chwareli yn gweithredu erbyn hyn.

Defnyddiwyd rhai o'r cyn-chwareli yn safleoedd tirlenwi, ac mae hyn wedi datblygu'n broblem sy'n benodol i Wynedd. Yn dilyn Deddf Rheoli Llygredd 1974, cyflwynwyd cofrestr o safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, ni chofrestrwyd yr hen safleoedd tirlenwi. Mae'r safleoedd hyn yn faes pryder penodol o ran tir halogedig oherwydd y risg i iechyd dynol a dyfroedd a reolir, oherwydd nwy tirlenwi a thrwytholchion.

Mae Strategaeth Ddrafft Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar Fwyngloddiau Metel (Ionawr 2002) yn cynnwys argymhellion allweddol ar gyfer cyfnod gweithredu, ac mae'r Asiantaeth wedi sefydlu prosiect penodol er mwyn cyflawni gweithrediad y Strategaeth dros gyfnod o 2 flynedd.

Mae gan rhai o'r safleoedd mwyngloddiau metel a'u hamlygir o fewn y Strategaeth uchod y potensial i fod yn Safleoedd Arbennig neu Dir Halogedig ar sail llygredd i ddŵr wyneb a achosir ganddynt sy'n arwain at fethu â chyrraedd safonau ansawdd dŵr a dosbarthiad afonydd. Mae'r safleoedd hyn yn gysylltiedig a methiannau yn ansawdd y dŵr sy'n syrthio o fewn dyletswyddau penodol yr Asiantaeth, ac efallai na fyddent yn cynnwys methiannau potensial o ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â thyniadau preifat. Credir y bydd adferiad y rhan fwyaf o'r 50 o brif safleoedd mwyngloddiau metel sydd yn y Strategaeth yn cael eu cyflawni ar y cyfan drwy ddatblygu prosiectau ar y cyd gyda chyfranddalwyr eraill sydd â diddordeb uniongyrchol.

O'r 50 safle yma, un yn unig sydd yn Sir Gwynedd, sef Mwynglawdd Aur Gwynfynydd ger Dolgellau.

### 2.9.3 Radon

Nwy ymbelydrol sy'n cael ei gynhyrchu'n naturiol trwy ddadfeiliad ymbelydrol radiwm yw radon. Mae'r radiwm yn deillio yn ei dro o ddadfeiliad ymbelydrol wraniwm. Ceir symiau bychain o wraniwm ym mhob pridd a chraig, er bod y swm yn amrywio o le i le. Mae mwy o wraniwm mewn creigiau folcanig megis gwenithfaen, na mewn creigiau gwaddod. Gall radon ymestyn am bellter sylweddol o'r creigiau sy'n cynnwys wraniwm, a theithio ar hyd llinellau ffawtiau, mwyngloddiau a hyd yn oed trwy bibelli yn y ddaear nes cyrraedd yr wyneb, lle mae'n gwasgaru. Fodd bynnag, fe all radon sy'n mynd i mewn i leoedd cae'dig heb eu hawyru'n ddigonol, er enghraifft selerydd, fod â chrynodiad uchel. Fe fydd dull codi'r adeilad ac ansawdd yr awyru yn dylanwadu ar grynodiad y radon yn yr adeilad hwnnw.

Mae astudiaethau iechyd ar hyd a lled y byd yn cysylltu arbelydriad radon â risg uwch o ganser yr ysgyfaint. Mesurir radon mewn unedau ymbelydredd (becquerels) fesul metr ciwbig o awyr ( $Bq/m^3$ ). 20 uned yw'r cyfartaledd crynodiad yng nghartrefi'r DG, a 200 uned o grynodiad blynyddol ar gyfartaledd yw'r Lefel Gweithredu. Os yw'r lefel yn uwch na hyn, argymhelliad y NRPB a'r Llywodraeth yw bod deiliad tŷ yn gweithredu i leihau lefelau radon cymaint â phosibl.

Dynododd Adroddiad 1998 yr NRPB sef 'Radon in Dwellings in Wales' ardaloedd yng Ngwynedd yn ardaloedd y mae radon yn effeithio arnynt. Ardaloedd yw'r rhain (sy'n seiliedig ar sgwariau 5km wrth 5km) lle y mae'n debygol fod gan 1 y cant neu fwy o dai lefelau radon uwchlaw'r Lefel Gweithredu.

Er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried posibilrwydd arbelydriad radon, mae Uned Rheoliadau Adeiladu Cyngor Gwynedd bellach yn gofyn i ddatblygwyr ymgymryd ag asesiad daearegol o fewn yr ardaloedd y mae radon yn effeithio arnynt cyn dechrau ar unrhyw waith datblygu, neu i ddefnyddio a gosod mesurau amddiffynnol llawn.

Yn achos anheddau sy'n bodoli eisoes yng Ngwynedd, fe fydd yr Uned Rheoli Llygredd yn cynnig cyngor i ddeiliaid tai ar sut i gynnal profion radon ar eu hadeiladau.

### 2.10 Gwybodaeth hysbys ynglŷn â halogiad

Mae gan yr Awdurdod wybodaeth am diroedd yn yr ardal allai fod wedi eu halogi. Os oes gan yr Awdurdod ddigon o reswm i gredu y gallai defnydd hanesyddol y safle fod wedi achosi'r halogiad, yna fe fyddant yn gofyn am archwiliad o'r safle cyn i unrhyw ddatblygiad gael ei ddechrau. Pan fydd safle i'w weld yn un halogedig, bydd angen gwneud gwaith adferol i wella cyflwr y safle naill ai cyn ei ddatblygu, neu fel rhan o'r datblygiad.

Gan mai ardal wledig ar y cyfan yw Gwynedd, caniatáu nifer o domenni tirlenwi bychain gerllaw'r cymunedau a'r trefi roeddent yn eu gwasanaethu oedd y dull traddodiadol o waredu gwastraff. Yn y gorffennol, dewiswyd y safleoedd yn ôl p'un a oeddent ar gael ai peidio, ac roedd hyn yn tueddu i olygu hen weithfeydd mwynau neu ymylon tir amaethyddol. Roedd llawer o'r cyn-safleoedd tirlenwi wedi'u lleoli ar dir amaethyddol gwael, yn enwedig safleoedd gwlyb neu safleoedd lle roedd y tir yn anodd ei wella i'w drin.

Rhagwelir mai'r hen safleoedd tirlenwi fydd prif ganolbwynt asesïadau'r Cyngor, a hynny oherwydd problemau megis trwytholchion neu allyriannau nwy methan. Ymhlith y safleoedd eraill y rhagwelir y bydd angen eu hasesu mae hen sefydliadau milwrol, gweithfeydd nwy, garejys masnachol a safleoedd gwaith peirianeg ysgafn.

### **2.11 Gweithredu sydd eisoes ar waith i drin halogiad tir**

Daw Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o nifer o safleoedd y mae'n bosibl eu bod naill ai wedi eu halogi naill ai yn y gorffennol neu yn cael eu halogi ar hyn o bryd trwy:

- geisiadau am ganiatâd cynllunio dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref;
- rheoli trwyddedau cyfleusterau rheoli gwastraff cyfredol a rhai sydd bellach wedi cau;
- trwy gyneffindra Swyddogion yr Awdurdod â'r ardal.

O ganlyniad i'r uchod:

- gwerthuswyd y tir halogedig i bennu lefel yr halogiad sydd yno, a'r gwaith adfer fydd yn angenrheidiol i ddod â'r tir i safon a chyflwr sy'n addas ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig yn ôl y cais cynllunio. Lle mae datblygu eisoes wedi digwydd, fe fyddai'r tir wedi ei dadhalogi i'r radd ofynnol.
- fe fyddai'r tir halogedig yn safle tirlenwi hysbys, ac fe fyddai cwmpas y safle yn awr ac yn y gorffennol, ynghyd â chategori'r gwastraff a adawyd yno, yn hysbys.
- fe fyddai tir halogedig nad yw'r pwyntiau uchod yn berthnasol iddo yn cael ei nodi a'i gofnodi gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

### **3 STRATEGAETH ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD: NODAU CYFFREDINOL**

Roedd Pennod 1 yn amlinellu dyletswyddau'r Cyngor ynglŷn â Rhan IIA DDA 1990, a'i ymrwymiad i sicrhau gwella amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Yna fe ddisgrifiodd Pennod 2 nodweddion unigryw amgylchedd Gwynedd. Mae'r Bennod hon yn dwyn ynghyd y ffactorau hyn yn set gydlynol o nodau ac amcanion, sy'n symbylu Strategaeth Archwilio Cyngor Gwynedd.

#### **3.1 Nodau'r Strategaeth**

Nodau Strategaeth Cyngor Gwynedd o ran trin halogiad tir yw:

- mabwysiadu a gweithredu gweithdrefn briodol i ddelio gyda risgiau annerbyniol i iechyd pobl a'r amgylchedd;
- ceisio sicrhau bod tir sydd wedi ei niweidio yn cael ei wella nes ei fod yn addas i'w ddefnyddio'n fuddiol unwaith eto; a
- ceisio sicrhau bod y beichiau y mae unigolion, cwmnïau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd yn eu hwynebu o ran cost yn gymesur â'r broblem, yn hydrin ac yn gynaliadwy yn economaidd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl nodau hyn, pennwyd nifer o amcanion cysylltiedig y mae'n rhaid eu cyflawni o ganlyniad uniongyrchol i weithredu'r strategaeth archwilio.

#### **4.2 Amcanion y Strategaeth**

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rhan IIA DDA 1990 (mewn osodwyd gan Adran 57 Deddf yr Amgylchedd 1995) a'i gorfodi.
- Sicrhau bod y broses cynllunio, pan fydd unrhyw ailddatblygu yng Ngwynedd, yn trin unrhyw achos o halogiad tir yn effeithiol fel bod y tir yn addas ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig.
- Mynd i'r afael â'r atebolrwydd am ddaliadau tir cyfredol a hen ddaliadau tir y Cyngor, ac osgoi unrhyw atebolrwydd newydd sy'n gysylltiedig â gweithrediadau tir.
- Bod yn gymesur â difrifoldeb unrhyw risg gwirioneddol neu bosibl.
- Sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r problemau mwyaf enbyd a difrifol yn gyntaf trwy sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar archwilio ardal lle byddai'r Cyngor fwyaf tebygol o ddod o hyd i dir halogedig.
- Sicrhau ymagwedd ragweithiol ymhlith tîrfeddianwyr a llygrwyr posibl tuag archwilio halogiad.

## 4 BLAENORIAETHAU'R AWDURDOD LLEOL O RAN GWEITHREDU AC AMSERLEN

Mae'r Bennod hon yn disgrifio dull penodol Cyngor Gwynedd o drin mater blaenoriaethu tir i'w archwilio. Trwy gydol y broses, os amheuir bod unrhyw safle yn achosi niwed sylweddol, neu os yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyfeirio ato fel un sydd wedi ei bennu yn 'safle arbennig', yna rhoddir y flaenoriaeth i'r rhain, a'u trin yn fater o frys.

### 4.1 Y Broses Blaenoriaethu

Rhan o weithredu deddfwriaeth Rhan IIA DDA 1990 ynglŷn â thir halogedig, a hynny yn effeithiol, yw'r strategaeth. Manylir ar gynnwys gofynnol strategaeth archwilio yn y Canllawiau Statudol (paragraff 2.9) ond mae rhyddid i'r awdurdod lleol adlewyrchu ei flaenoriaethau ei hun ac amgylchiadau ei ardal yn ei strategaeth archwilio, cyn belled â'i fod hefyd yn diwallu'r gofynion a nodwyd.

#### 4.1.2 Blaenoriaethu Ardaloedd Daearyddol

Mae Gwynedd yn cwmpasu ardal o ryw 254,800 hectar, ac mae yn y Sir boblogaeth o 116,600. Mae yna ardal fawr felly gyda phoblogaeth led wasgaredig. Er y disgwylir y bydd y mwyafrif o'r safleoedd â'r potensial i gael eu dynodi yn diroedd halogedig o amgylch y trefi a'r pentrefi mwy, mae'n bosibl y bydd derbynyddion yn bresennol yn y rhan fwyaf o Wynedd. Fe fydd y 69 Ward Etholaethol yng Ngwynedd felly yn cael eu blaenoriaethu yn ôl presenoldeb derbynyddion a ffynonellau halogiad posibl fel a ganlyn:

- Derbynyddion dynol;
- Systemau Ecolegol;
- Dyfroedd a reolir;
- Dŵr daear;
- Mae derbynyddion eraill ar ffurf eiddo i'w cael dros y rhan fwyaf o Wynedd, felly ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys y rhain yn y blaenoriaethu cychwynnol;
- Gwybodaeth hysbys am halogiad.

Mae Atodiad V yn darparu enghreifftiau o'r fethodoleg blaenoriaethu a fydd yn cael ei ddefnyddio. Bwriedir archwilio'r Wardiau Etholaethol yn nhrefn y flaenoriaeth a nodwyd.

#### 4.1.3 Blaenoriaethau Is-ardaloedd neu Safleoedd

Yn dilyn blaenoriaethu Wardiau Etholaethol, mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu mabwysiadu dull dau-gam o nodi tir halogedig: -

Cam 1 – Asesu Rhagarweiniol i nodi cysyllteddau llygrol posibl;

Cam 2 – Blaenoriaethu Safle ac Archwilio Manwl.

## Cam 1

Er mwyn nodi tir halogedig, mae'n ofynnol i'r Awdurdod nodi cysylltedd llygrol (presenoldeb llygryn, llwybr a derbynydd) gan ystyried y defnydd cyfredol a wneir o'r tir. Astudiaeth gwaith papur fydd hon i gychwyn, ac fe fyddwn yn astudio hen arolygon, mapiau, gwybodaeth ddaearogol ac ati, i nodir safleoedd lle bydd derbynydd cyfredol yn cyd-daro â halogyn posibl. Trwy'r astudiaeth gwaith papur hon, fe fyddwn yn nodi safleoedd sy'n teilyngu ymchwilio ac archwilio pellach (gweler Pennod 6 am fanylion ynglŷn â ffynonellau gwybodaeth).

### Cam 2

Yn dilyn yr Asesiad Rhagarweiniol cychwynnol yng Ngham 1, mae'n bosibl y bydd nifer o safleoedd yn dod i'r amlwg lle ceir *cysylltedd llygrol*. Mae'n bosibl y bydd ymweliad â'r safle yn lleihau'r nifer yma, oherwydd na fydd

derbynnydd na llwybr posibl yn bodoli yno. Fodd bynnag, yn dilyn y chwiliad i'r defnydd a wnaed o'r tir yn y gorffennol, ac ymweliad â'r safle, pery'r posibilrwydd y bydd nifer o safleoedd ar ôl lle ceir *cysylltedd llygrol*. Pan fydd hyn yn digwydd, fe fydd yn rhaid inni flaenoriaethu'r tir ymhellach er mwyn gallu targedu'r adnoddau hyn ar y safleoedd hynny lle mae'r tebygolrwydd o nodi tir halogedig ar ei uchaf.

Fe all methodolegau blaenoriaethau amrywio. Ar hyn bryd, nid oes unrhyw ganllawiau cenedlaethol y mae gofyn i'r Awdurdod eu dilyn wrth flaenoriaethu tir i'w archwilio. Mae'n bosibl penderfynu a yw'r risg yn uchel ynteu'n isel gan ddefnyddio barn ansoddol ar sail y defnydd a wnaed o'r tir yn y gorffennol a'r agosrwydd at dderbynnyddion ac ati. Ar y llaw arall, gellir defnyddio rhyw ddull o fesur y risg a phriodoli pwyntiau am y gwahanol ffyrdd y defnyddiwyd darn o dir yn y gorffennol, gwahanol dderbynnyddion gwahanol lwybrau ac ati. Yng Ngwynedd, bydd safleoedd yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio sustem scorio. Fe fydd y safleoedd yn derbyn pwyntiau yn ôl eu defnydd o'r tir yn y gorffennol a'r derbynnyddion allai fod yno. Trafodir manylion y system scorio, sy'n rhoi blaenoriaeth uwch i risgiau i iechyd dynol nag i dderbynnyddion eraill posibl ym Mhennod 6.

Byddwn yn ystyried presenoldeb llwybrau halogiad posibl, sef y trydydd gofyniad o ran 'cysylltedd llygrol' wrth inni archwilio ardaloedd/safleoedd unigol.

Dyma fydd blaenoriaethau'r Cyngor o ran pwysigrwydd: -

- Diogelu iechyd pobl;
- Diogelu dyfroedd a reolir;
- Diogelu ecosystemau sydd wedi'u dynodi;
- Osgoi niwed i eiddo;
- Atal unrhyw halogiad tir pellach;
- Annog unrhyw waith adfer gwirfoddol;
- Annog ailddefnyddio'r tir yr ystyrir ei fod yn 'dir llwyd' neu dir halogedig.

#### 4.4 Amserlen

Mae asesu'r amserlen angenrheidiol ar gyfer cwblhau pob Ward unigol yn waith hynod anodd ond disgwylir na fydd yr Asesiad Rhagarweiniol yn cymryd mwy na thair blynedd.

Amcanion	Amserlen a Fabwysiedir
Sefydlu Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd	Tachwedd 2001
Cynhyrchu'r Strategaeth	Mawrth 2002
Ymgynghori ar y Strategaeth	Ebrill – Mai 2002
Mabwysiadu a Chyhoeddi'r Strategaeth	Medi 2002
Cofrestr Gyhoeddus o Dir Halogedig	Hydref 2002
Dewis offeryn meddalwedd i reoli'r data	Medi 2002
Caffael mapiau hanesyddol digidol yr Arolwg Ordnans	Medi 2002
Blaenoriaethu Wardiau ar gyfer Asesiad Rhagarweiniol	Erbyn Ionawr 2003
Casglu'r setiau data allweddol	
Nodi a chynhyrchu haen SWD o Dderbynyddion Rhan IIA	Mehefin 2003
Casglu cronfeydd data ar SWD o safleoedd allai gynnwys tir halogedig	Rhagfyr 2005
Blaenoriaethu Safleoedd i'w Harchwilio	Ionawr 2006
Archwiliad Manwl	o Ionawr 2006 ymlaen
Trin Safleoedd ar Frys	Cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddod yn hysbys i'r Awdurdod
Adolygiad Ariannol (Blynyddol)	Hydref 2003
Rhaglen Adolygu'r Strategaeth (Blynyddol)	Hydref 2003

#### 4.3 Goblygiadau Adnoddau

##### 4.3.1 Dynol

Trafodir trefniadau rheolaeth fewnol yn rhan 5.1 ym Mhennod 5. Bydd gweithredu'r gyfundrefn Rhan IIA yn broses fydd yn datblygu yn barhaol, gyda'r angen i ail edrych ar wybodaeth i sicrhau fod newidiadau yn cael ei integreiddio i mewn i'r sustem. O ganlyniad i'r ansicrwydd sydd yn cwmpasu'r llwyth gwaith union a gaiff ei gynhyrchu gan y gyfundrefn, ar y cyfnod yma o'r gweithredu mae'r amserlen a nodwyd yn un dros dro.

##### 4.3.2 Cyllidol

Mae'r Awdurdod wedi clustnodi swm o £30k ar gyfer adnabod safleoedd sydd gyda'r potensial i fod yn halogedig dros y dair blynedd nesaf, fydd yn cael ei ddefnyddio i bwrcasu setiau gwybodaeth, sustemau gwybodaeth a.y.y.b.

Er mai bwriad y gyfundrefn yw i'r gost ddisgyn ar y person(au) sydd yn gyfrifol am y lygru'r tir, bydd yn rhaid i'r Awdurdod benodi ymgynghorwyr arbenigol yn y llaw cyntaf i ymgymryd a'g asesiad o ardaloedd penodol o dir. Yn

ogystal, fe all yr Awdurdod, o ganlyniad i'w pherchnogaeth tir a chyfrifoldebau orfod adfer safleoedd amddifad, lle na ellir dod o hyd i berson(au) perthnasol.

Bydd pob ffynhonnell o gyllid fydd ar gael yn cael eu dilyn i fyny i weithredu gwaith o'r fath, a all gynnwys cyfuniad o fidiau mewnol, cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a ffynonellau eraill.

Lle fydd yn briodol, bydd Cyngor Gwynedd yn annog perchnogion, deiliaid neu ddatblygwyr i ymgymryd â gwaith archwilio eu hunain.



## **5 GWEITHDREFNAU**

Mae'r Bennod hon yn manylu ar y trefniadau mewnol a sefydlwyd i weithredu'r Strategaeth, a'r gweithdrefnau y bydd yr Awdurdod yn eu dilyn er mwyn cwrdd â gofynion y Canllawiau Statudol.

### **5.1 Trefniadau mewnol ar gyfer rheoli archwilio a nodi**

#### **5.1.1 Uned Rheoli Llygredd – Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd**

Fel y nodwyd eisoes, Uned Rheoli Llygredd yr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd sy'n gyfrifol am baratoi'r ddogfen Strategaeth gorfforaethol i roi'r gweithgareddau dilynol ar waith, gan gynnwys nodi, archwilio a sicrhau gwaith adfer ar dir halogedig dan Rhan IIA DDA 1990. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ym Mhennod 11.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i Swyddogion yr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd gynnal yr archwiliadau angenrheidiol, y samplo, a lle bo angen, y gorfodi.

Y Swyddog Llygredd fydd y prif bwynt cyswllt, a'r swyddog hwnnw fydd yn arwain archwiliad cychwynnol y Sir. Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yr Uned Rheoli Llygredd fydd yn goruchwyllo ac yn adolygu gwaith y Swyddog Llygredd ac yn gyfrifol am ddynodi Tir Halogedig, mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

#### **5.1.2 Y Gweithgor Tir Halogedig**

Dogfen gorfforaethol yw'r Strategaeth hon, a chydabyddir y bydd llawer rhan o'r Cyngor yn gallu cyfrannu sgiliau a gwybodaeth hanfodol i sicrhau bod cynnwys y Strategaeth hon a'r gweithredu gofynnol yn gyson â'r cyngor a geir yn y Canllawiau Statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Gweithgor Tir Halogedig, felly, sy'n cynnwys cynrychiolwyr holl fudd-ddeiliaid perthnasol yr Awdurdod. Rhestrir y cyfranogwyr a'u manylion ym Mhennod 11. Er mai swyddogion yr Awdurdod yw'r mwyafrif o aelodau'r Gweithgor, mae cynrychiolwyr asiantaethau eraill, er enghraifft Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri hefyd yn ymwneud â'r gwaith o bryd i'w gilydd. Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Llygredd) yw Cadeirydd y Gweithgor.

#### **5.1.3 Rôl yr Aelodau Etholedig**

Yn dilyn ymgynghoriadau a'r adolygiadau a gododd o'r broses ymgynghori, cyflwynwyd y Strategaeth i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd y Cyngor, cyn i Fwrdd y Cyngor ei mabwysiadu.

Hysbysir y Pwyllgor priodol cyn gynted â phosibl os yw'r Awdurdod yn cynnig dynodi yn Dir Halogedig unrhyw dir yn ei feddiant cyfredol neu ei feddiant yn y gorffennol os yr Awdurdod yw'r 'person priodol'.

## **5.2 Amlinelliad o'r Weithdrefn Statudol**

### **5.2.1 Penderfynu bod tir wedi ei halogi**

Mae pedwar achos posibl dros benderfynu bod tir yn halogedig:

- (a) Mae niwed sylweddol yn cael ei achosi;
- (b) Mae yna bosibilrwydd sylweddol y gallai niwed sylweddol gael ei achosi;
- (c) Mae achos o lygru'r dyfroedd a reolir;
- (d) Tebygolrwydd y bydd achos o lygru'r dyfroedd a reolir.

Wrth lunio unrhyw benderfyniad, fe fydd Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, yn cynnal asesiadau gwyddonol priodol ac yn gweithredu yn unol â'r Canllawiau Statudol. Fe fydd y penderfyniad yn adnabod tair elfen y cysylltedd llygrol ac yn egluro'u harwyddocâd.

### **5.2.2 Lle nad oes modd penderfynu'n ddigonol ar arwyddocâd y cysylltedd llygrol**

Mae'n bosibl y bydd sefyllfa yn codi lle nad fydd yn bosibl penderfynu, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, p'un a yw'r cysylltedd llygrol yn arwyddocaol ai peidio yn unol â'r Canllawiau Statudol. Mewn achos o'r fath, fe fydd y Cyngor yn penderfynu, o ystyried y tebygolrwydd, nad yw'n ymddangos bod y tir yn cyd-fynd â'r diffiniad statudol o dir halogedig, ond y byddant yn adolygu'r sefyllfa ac yn ailagor yr achos ar unrhyw adeg pe byddai gwybodaeth newydd yn dod i lawr. Yn yr un modd, gallai archwiliad nodi halogiad a fyddai'n gysylltedd llygrol sylweddol pe byddai derbynnyddion newydd yn dod i'r safle. Dan yr amgylchiadau hyn, fe fydd y wybodaeth yn cael ei chofnodi'n ofalus ac fe fyddai'r safle'n cael ei fonitro pe byddai hi'n debygol y gallai derbynnyddion newydd perthnasol ddod yno. Pe byddai bwriad i ddatblygu safle o'r fath yn y dyfodol, fe fyddai'r wybodaeth am y safle a ddaw i law yn ystod yr archwiliad ar gael i'r Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd.

### 5.2.3 Tir allai fod yn safle arbennig

Os yw'r Cyngor yn ymwybodol y byddai'r tir y mae'n bwriadu ei archwilio yn cael ei ddynodi'n 'safle arbennig' pe byddai'r tir hwnnw'n dir halogedig, fe fydd yn hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru trwy lythyr, gan wneud cais am unrhyw wybodaeth allai fod ganddi am y tir a'r tebygolrwydd o gysylltedd llygrol. Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (neu eu hasiantau) yn bwriadu cynnal archwiliad ffurfiol ar ran y Cyngor, fe benodir eu swyddogion yn 'bersonau addas'. Nid oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rym dan Rhan IIA i archwilio'r tir, a allai fod yn dir halogedig, heb awdurdodiad y Cyngor.

### 5.2.4 Pŵerau Mynediad

Cyflwynir grymoedd mynediad i'r Cyngor i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau dan Rhan IIA. Ni fydd y Cyngor yn defnyddio'r grymoedd hyn i gael gwybodaeth ynghylch cyflwr y tir, lle: -

- Y gall gael y wybodaeth oddi wrth drydydd parti heb orfod mynd i mewn i'r safle; neu
- Mae unigolyn yn cynnig darparu'r wybodaeth o fewn amser rhesymol a phenodol, ac yn gwneud hynny.

### 5.2.5 Cofnod ysgrifenedig o benderfyniad a hysbysiad ffurfiol

Unwaith y bydd darn o dir wedi ei ddatgan yn dir halogedig yn ôl y diffiniad statudol, fe fydd y Cyngor yn paratoui cofnod ysgrifenedig a fydd yn cynnwys: -

- a) disgrifiad o'r cysyllteddau llygrol a gadarnhawyd, gan gynnwys model cysyniadol;
- b) crynodeb o'r dystiolaeth sy'n cadarnhau bodolaeth y cysylltedd(au) llygrol;
- c) crynodeb o'r asesiadau risg a oedd yn ystyried bod yn gysyllteddau llygrol yn rhai sylweddol;
- d) crynodeb o'r dull y bodlonwyd gofynion y Canllawiau Statudol.

Yna fe fydd y Cyngor yn hysbysu'n ysgrifenedig ac yn ffurfiol yr holl garfanau perthnasol fod y tir wedi'i ddatgan yn dir halogedig, gan gynnwys:

- a) y perchennog/perchnogion;
- b) y meddiannwr/meddianwyr;
- c) y sawl sy'n atebol i adfer y tir ('person(au) priodol');
- d) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Yn ystod y cam hysbysu, mae'n bosibl na fydd yn bosibl nodi'r holl garfanau perthnasol, yn enwedig y personau priodol. Fodd bynnag, fe fydd y Cyngor, yn gweithredu yn ôl y wybodaeth orau sydd ar gael iddo ar y pryd ac yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus wrth i fwy o wybodaeth ddod i law.

Os yw'r Cyngor o'r farn fod y tir halogedig yn 'safle arbennig', fe fydd hefyd yn hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o'r penderfyniad hwnnw. Yna fe fydd yr Asiantaeth yn ystyried p'un a yw'r tir yn 'safle arbennig' ai peidio. Os nad yw'n cytuno, fe fydd yn hysbysu'r Cyngor a'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn 21

diwrnod trwy ddatganiad cynhwysfawr sy'n egluro'i rhesymau. Yna fe fydd y Cyngor yn cyfeirio'r penderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cytuno â'r Cyngor, neu os yw'n methu â hysbysu'r Cyngor ei bod yn anghytuno o fewn 21 diwrnod, fe fydd y tir yn cael ei ddynodi'n safle arbennig. Fe fydd y cyfrifoldeb am sicrhau gwaith adfer yn cael ei drosglwyddo i'r Asiantaeth er y bydd yn rhaid i'r Cyngor gwblhau'r broses hysbysu ffurfiol.

Lluniwyd y ddeddfwriaeth a'r Canllawiau Statudol i geisio annog **gwaith adfer gwirfoddol** (heb fod angen gweithrediad gorfodi). Mae'r weithdrefn hysbysu ffurfiol yn symbylu'r broses o ymgynghori ar ba waith adfer allai fod fwyaf priodol. I gynorthwyo'r broses, fe fydd y Cyngor yn darparu cymaint fyth o wybodaeth ag y gall i'r carfanau perthnasol, gan gynnwys, lle y bydd ar gael: -

- a) copi o'r cofnod ysgrifenedig o benderfyniad;
- b) copïau o adroddiadau'r archwiliadau ar y safleoedd (neu fanylion ynglŷn â lle y gellir eu cael);
- c) eglurhad o'r rheswm y dewiswyd y personau priodol;
- d) manylion yr holl garfanau eraill a hysbyswyd.

Mae'n bosibl mai dyma pryd y bydd ar y Cyngor angen mwy o wybodaeth ynghylch cyflwr y safle er mwyn gallu adnabod nodweddion unrhyw gysyllteddau llygrol sylweddol a nodwyd. Os digwydd hyn, yna fe fydd ymgais anffurfiol i gael y wybodaeth oddi wrth y personau priodol a nodwyd eisoes.

### 5.3 Atebolrwydd

Gellir datgan fod y tir yn halogedig ar ôl adnabod un cysylltedd llygrol yn unig. Ond ni ellir pennu atebolrwydd llawn nes y bydd yr holl gysyllteddau llygrol ar y safle wedi'u nodi. Pan fydd yr holl gysyllteddau llygrol sylweddol wedi'u nodi, yna rhaid i'r weithdrefn sy'n ymwneud â phriodoli atebolrwydd gychwyn. Mae pump cam penodol i hyn, fel a ganlyn: -

- i) Nodi'r personau priodol a'r grwpiau atebolrwydd posibl;
- ii) Disgrifio'r gweithredoedd adfer;
- iii) Priodoli cyfrifoldeb i grwpiau atebolrwydd;
- iv) Eithrio aelodau o grwpiau atebolrwydd;
- v) Dosrannu atebolrwydd rhwng aelodau grŵp atebolrwydd.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn rhai cymhleth a thrwsgl. Mae'r broses yn cychwyn trwy benderfynu pa grwpiau sy'n atebol. Mae'r holl bersonau priodol sy'n ymwneud ag un cysylltedd yn 'grŵp atebolrwydd'. Gall y rhain fod yn bersonau dosbarth 'A' neu'n bersonau dosbarth 'B'.

Personau priodol – Dosbarth 'A' – y llygrwyr yw'r rhain yn anad dim, ond hefyd gellir cynnwys personau sy'n 'caniatáu yn fwriadol'. Mae hyn yn cynnwys datblygwyr sy'n gadael halogiad ar safle sydd yn ddiweddarach yn arwain at ddatgan y tir yn dir halogedig.

Personau priodol – Dosbarth 'B' – Lle nad yw'n bosibl dod o hyd i bersonau dosbarth 'A', mae'r atebolrwydd yn dychwelyd i'r perchennog neu'r meddiannwr. Cyfeirir at y rhain fel personau Dosbarth 'B'. Fe fydd y Cyngor yn gwneud pob ymholiad rhesymol i geisio nodi personau Dosbarth 'A' cyn y bydd yr atebolrwydd yn dychwelyd i'r perchnogion neu'r meddiannwr.

Rhaid ystyried mater personau priodol ym mhob cysylltedd llygrol sylweddol. Felly, lle mae nifer o ddefnyddwyr llygrol wedi bod yn gyfrifol am safle dros y blynyddoedd, fe fydd pob cysylltedd llygrol yn cael ei nodi ar wahân, a'r atebolrwydd yn cael ei ystyried o ran pob un ohonynt.

#### 5.3.1 Dosrannu costau

Yn gyffredinol, fe fydd cyfanswm y gost yn cael ei rannu rhwng aelodau'r grŵp atebolrwydd. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn angenrheidiol dosrannu costau rhwng gwahanol grwpiau atebolrwydd. Mae tair egwyddor sylfaenol sy'n berthnasol i broffion eithrio a dosrannu:

- i) **Nid** yw amgylchiadau ariannol yr aelodau dan sylw **yn berthnasol o gwbl**;
- ii) Rhaid i'r Cyngor ymgynghori â'r personau yr effeithir arnynt i gael gwybodaeth (ar sail resymol, gan ystyried y gost). Os yw rhywun yn ceisio cael ei eithrio, neu yn ceisio dylanwadu ar ddsraniad er ei fantais ei hun, yna arno ef fydd y baich o ddarparu gwybodaeth i gefnogi ei achos i'r Cyngor.
- iii) Lle ceir cytundebau rhwng personau priodol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barchu'r cytundebau hyn.

### 5.3.2 Cyfyngiadau ar y costau y mae'n rhaid i bersonau priodol eu talu

Pennir chwe phrawf i nodi grwpiau Dosbarth 'A' y dylid eu heithrio o atebolrwydd. Fe fydd y rhain yn cael eu cymhwyso fesul un mewn trefn benodol, ac ar wahân yn achos pob cysylltedd llygrol. Fe fydd eithrio personau Dosbarth 'B' lawer yn llai cymhleth, gan nid yw'r prawf unigol ond yn eithrio'r rhai nad oes ganddynt fuddiant yng ngwerth cyfalaf y tir. Eithrir tenantiaid felly. Pan fydd y Cyngor wedi dosrannu costau pob gweithred adferol, fe fydd yn ystyried p'un a yw unrhyw un o'r rhai sy'n atebol yn analluog i'w fforddio cyn iddo gyflwyno rhybuddion adfer. Wedi ystyried y Canllawiau Statudol, os yw'n penderfynu nad yw un garfan neu fwy o garfanau yn gallu fforddio'r gost, ni fydd yn cyflwyno rhybudd adfer i unrhyw un ohonynt. Yn lle hynny, fe fydd y Cyngor yn ystyried cyflawni'r gwaith ei hun, a chynhyrchu a chyhoeddi datganiad adfer.

### 5.3 Y Broses Orfodi

Cyn y bydd rhybuddion adfer yn cael eu cyflwyno, fe fydd proses ymgynghori helaeth wedi ei chwblhau, a digon o anogaeth i geisio sicrhau ateb anffurfiol. Fe fydd y Cyngor yn gwneud pob dim o fewn ei allu i ymgynghori â'r personau priodol, y perchnogion, y meddianwyr ac ati i geisio'u barn ar gyflwr y tir. Fe allai hyn fod yn broses anodd a maith, ac fe allai achosi oedi. Pan fydd yn effeithio ar stad o dai, er enghraifft, fe fyddai'n rhesymol disgwyl i berchnogion tai, tîrfeddianwyr, datblygwyr, benthycwyr, yswirwyr, syrfewyr, peirianwyr geotechnegol, grwpiau preswylwyr, ac ati oll fod â barn wahanol, gan ddibynnu ar eu sefyllfa. Fel ateb olaf yn unig y bydd y Cyngor yn cyflwyno rhybudd adfer (er gwaethaf achosion brys), a hynny dim ond ar ôl i'r broses ymgynghori maith ddod i ben. Fe fydd y rhybuddion yn cael eu hawdurdodi ar ôl bodloni dau brawf: -

- Na fyddai'r gweithredu adferol yn cael ei gyflawni fel arall;
- Nad oes gan y Cyngor unrhyw rym i wneud y gwaith ei hun.

Os cyflawnir yr amodau hyn, yna fe fydd y Cyngor yn cyflwyno rhybudd adfer i bob person priodol. Ni all y rhybudd adfer gael ei gyflwyno llai na thri mis ar ôl hysbysiad ffurfiol fod y tir yn dir halogedig, oni bai eu bod yn tybio bod angen gweithredu ar frys (lle byddai risg o niwed difrifol ar unwaith).

#### 5.4.1 Manyleb y gwaith adfer

Fe fydd swyddogion yr Uned Rheoli Llygredd yn manylu yn y rhybudd adfer ar y mesurau adfer sydd i'w gweithredu. Fe fydd y rhain yn briodol, yn gost effeithiol, ac yn defnyddio'r hyn y mae'r Canllawiau Statudol yn eu galw'n 'dechnegau adfer ymarferol gorau'. Nod y gwaith adfer fydd sicrhau nad yw'r tir wedi ei halogi mwyach, gan ddefnyddio'r dull cyflymaf neu fwyaf cynaliadwy ac economaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe fydd hyn yn golygu canolbwyntio ar y llwybr yn hytrach nag ar y llygryn neu'r derbynnydd. Mae 'rhesymoldeb' y gofynion yn hollbwysig – cysyniad y rhoddir ystyriaeth sylweddol iddo yn y canllawiau. Pennir y rhesymoldeb trwy gymharu'r gost o wneud y gwaith adfer â chost methu â gwneud hynny (h.y. costau, neu gostau posibl parhau â'r llygredd). Hefyd, mae'n rhaid cynnal cyfres o ymgynghoriaethau ym mhob cyfnod, gyda'r nod o sicrhau gwaith adfer gwirfoddol (heb fod angen gweithrediad gorfodi) yn y pen draw. Lle gellir diffinio'r tir dan sylw fel 'safle arbennig', Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fydd yr awdurdod gorfodi. Yn yr achosion hyn, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu beth yw'r sefyllfa a chyflwyno rhybudd yn ffurfiol i'r rhai â buddiant. Disgrifir yn y Canllawiau Statudol yr hyn sy'n gategori niwed a'r hyn nad yw'n gategori o'r fath. Ymhlith y dyfroedd a reolir mae dŵr croyw, dŵr daear a dŵr yr arfordir.

Lle bodlonir yr awdurdod lleol bod niwed sylweddol yn digwydd, neu lle mae posibilrwydd sylweddol y ceir niwed o'r fath, neu lygru dyfroedd a reolir, rhaid iddynt ddatgan bod cysylltedd llygrol sylweddol yn bodoli a bod y tir felly yn dir halogedig trwy ddiffiniad. Ymhob achos lle nad yw'r tir yn y 'safle arbennig', rhaid iddynt ddechrau

gweithrediad rheoliadol. Mewn rhai amgylchiadau, fe all yr awdurdod lleol wneud y gwaith adfer ei hun. Yn gyffredinol, felly, mae ganddo rym lle: -

- Mae angen gweithredu ar frys (gweler adran 5.4.2);
- Nad oes unrhyw berson priodol;
- Eithrir awdurdod o weithrediad gorfodi (rhesymau wedi'u nodi);
- Mae'r awdurdod yn cytuno i wneud y gwaith ar ran y person priodol;
- Na chydymffurfiwyd â rhybudd adfer.

Mewn achosion nad ydynt yn rhai brys lle mae angen rhybudd adfer, a lle mae pob ymgynghoriad wedi ei gwblhau, rhaid cyflwyno'r rhybudd ar y person(au) priodol dim cynt na thri mis wedi i'r tir halogedig gael ei ddynodi'n halogedig neu'n 'safle arbennig'. Mae'n bosibl y bydd y rhybudd ei hun yn golygu bod angen archwiliad pellach o'r safle, ac o ganlyniad i hyn fe allai mwy o gysyllteddau llygrol gael eu nodi. Lle digwydd hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi fynd trwy'r un prosesau eto i nodi'r personau priodol a'r gwaith adfer.

Rhaid i'r awdurdod gorfodi ystyried posibilrwydd caledi bob tro a chynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer pob gwaith adfer. Lle bydd gwaith adfer yn cael ei wneud yn niffyg rhybudd, mae gan yr awdurdod gorfodi y grym i adennill y costau mewn rhai amgylchiadau.

#### **5.4.2 Gwaith brys**

Lle bodlonir y Cyngor bod perygl o niwed difrifol neu lygredd difrifol mewn dyfroedd a reolir o ganlyniad i dir halogedig, a bod hynny ar fin digwydd rhaid iddo weithredu ar frys. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid dilyn y trefniadau a nodir yn y Canllawiau Statudol, ac fe allai hynny olygu ddefnyddio grym i gael mynediad i safleoedd. Ni ddiffinnir ystyron 'ar ddigwydd' a 'difrifol'; cynghorir awdurdodau lleol i weithredu yn ôl ystyr arferol yr ymadroddion. Fodd bynnag, ceir canllawiau ar yr hyn y gallai 'difrifoldeb' ei olygu wrth asesu rhesymoldeb y gwaith adfer. Fe fydd y Cyngor yn ymgymryd â'r gwaith adfer mewn achosion brys os mai'r Cyngor yw'r awdurdod gorfodi ac os yw o'r farn na fyddai gweithrediad gorfodi yn lliniaru'r sefyllfa. Yn achos 'safle arbennig' fe fydd y Cyngor yn datgan bod y tir yn dir halogedig yn unol â'r trefniadau statudol ac yn hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Hwy fydd yn gyfrifol am y gwaith adfer. Mewn achosion priodol, fe fydd y Cyngor yn ceisio adennill costau unrhyw waith adfer y mae wedi ei gwblhau.

#### **5.4.3 Tir ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol**

Lle ceir bod tir dan berchnogaeth awdurdod lleol yn dir halogedig, ni fydd unrhyw awdurdod orfodi oni bai ei fod yn 'safle arbennig'. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Gynghorau Lleol gyflawni eu dyletswyddau fel pe byddent hwy yn awdurdod gorfodi, gan gynnwys yr un ymgynghoriadau ac asesiadau a cheisio gwaith adfer priodol fel y bo angen. Er mwyn penderfynu beth yw buddiannau'r Cyngor, fe fydd angen canfod pa ddarnau o dir sydd: -

- neu a fu ym mherchnogaeth y Cyngor;
- neu a fu ym meddiant y Cyngor;
- mewn ardaloedd lle gallai'r Cyngor fod yn 'berson priodol' sy'n gyfrifol am y gwaith adfer dan y ddeddfwriaeth.

I'r perwyl yma, rhaid cynnal perthynas ffurfiol rhwng yr Adran sy'n gyfrifol am orfodi'r drefn newydd a'r un sy'n gyfrifol am y tir sy'n perthyn i'r Cyngor. Rhaid adrodd yn llawn ar yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â nodi, asesu ac adfer y tir sy'n perthyn i'r Cyngor er mwyn bodloni'r angen i fod yn agored.

#### **5.4.4 Gwaith adfer y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud**

Cyn y gall y Cyngor gyflwyno rhybudd adfer, fe fydd yn gyntaf yn penderfynu p'un a oes ganddo'r grym i gyflawni'r gwaith adfer ei hun. Mae pump amgylchiad penodol lle gallai hyn fod yn berthnasol:-

- Lle mae angen gweithredu ar frys;

- Lle na ellir dod o hyd i berson priodol;
- Lle mae un neu fwy o bersonau priodol wedi eu heithrio (ar sail caledi);
- Lle mae'r awdurdod lleol wedi llunio cytundeb â'r person(au) priodol y dylai'r awdurdod wneud y gwaith adfer;
- Yn niffyg rhybudd adfer.

#### 5.4.5 Cysyllteddau amddifad

Safleoedd amddifad yw'r enw a roddir ar y safleoedd na ellir dod o hyd i rywun (Person(au) Dosbarth A neu Ddosbarth B) sy'n gyfrifol amdanynt ar ôl gwneud ymholiadau 'rhesymol', neu safleoedd lle mae'r personau priodol wedi eu heithrio o atebolrwydd am resymau penodol. Disgrifir y rhain yn y Canllawiau Statudol dan y pennawd '**cysyllteddau amddifad**'.

Mae eithriadau'n berthnasol lle:-

- Mae'r tir wedi ei halogi oherwydd llygredd mewn dyfroedd a reolir **yn unig** ac ni ellir dod o hyd i berson(au) Dosbarth A (golyga hyn **na ellir** ystyried person(au) Dosbarth B yn atebol am lygru dŵr o'r tir).
- Mae'r tir wedi ei halogi oherwydd llygryn sy'n dianc o un darn o dir i ddarn arall ac ni ellir dod o hyd i unrhyw berson(au) Dosbarth A. Mae'r tir yn dir halogedig oherwydd llygru dyfroedd a reolir o fwynglawdd segur.
- Roedd y person(au) yn gweithredu yn rhinwedd 'gallu perthnasol' (ymarferydd methdaliad / derbynwyr swyddogol ac ati).

Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod gorfodi yn cwrdd â chost y gwaith adfer yn unol â chanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol.

## **6 CASGLU GWYBODAETH**

Fe fydd gweithredu'r Strategaeth hon yn arwain at gasglu swm sylweddol o wybodaeth. Mae'r Bennod hon yn nodi'r ffynonellau gwybodaeth y byddwn yn eu defnyddio ac yn manylu ar y trefniadau a'r gweithdrefnau y byddwn yn eu defnyddio i drin y wybodaeth honno.

Mae paragraff 2.15 y Canllawiau Statudol yn gofyn bod trefniadau a gweithdrefnau addas ar waith i gael gwybodaeth ar:

- Niwed neu lygredd gwirioneddol i ddyfroedd a reolir;
- Gwybodaeth am dderbynyddion;
- Gwybodaeth am bresenoldeb posibl halogwyr a'u heffeithiau.

### **6.1 Niwed neu lygredd gwirioneddol i ddyfroedd a reolir**

**Mae Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yn cwmpasu ardal Cyngor Gwynedd, ac fe fydd yn Cyngor yn ymgynghori â'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw wybodaeth sydd ar gael ynghylch niwed gwirioneddol i iechyd dynol. Dylid nodi y gallai niwed o'r fath fod yn anodd iawn ei nodi a'i fesur. Mae disgwyl y bydd gwybodaeth ar ddigwyddiadau neu honiadau o lygredd dŵr yn cael eu hadnabod unai drwy raglenni profi presennol, neu drwy ymgynghoriad ar safleoedd penodol rhwng Cyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water.**

### **6.2 Derbynyddion**

Mae adnabod derbynyddion yn fanwl yn elfen allweddol wrth asesu presenoldeb tir halogedig. Mae'r derbynyddion i'w cael ar nifer o wahanol ffurfiau, ac fe'u rhestrir isod:

#### **6.2.1 Pobl**

**116,600 oedd yr amcangyfrif o boblogaeth breswyl y Sir yn 2000. Byddwn yn ystyried y posibilrwydd fod pobl yn byw ar safle allai fod yn halogedig, neu yn mynychu safle o'r fath ymhob achos, ond rhoddir y flaenoriaeth i safleoedd allai fod yn risg i blant ifanc neu bobl oedrannus.**

#### **6.2.2 Adeiladau**

Fe fydd pob adeilad â'r gwasanaethau tanddaearol a geir o dan yr adeiladau yn dderbynyddion posibl, a rhoddir ystyriaeth i hyn ymhob achos lle mae halogiad ac adeiladau i'w cael yn yr un man.

### **6.2.3 Henebion**

Fe all safleoedd llygredig gyd-fodoli gyda gweddillion archeolegol neu dirlun o ddiddordeb hanesyddol, yn arbennig mewn perthynas â'g ardaloedd o gyn-weithgaredd diwydiannol. Mae Polisi Cynllunio Cymru 2002, Pennod 6, yn adnabod natur fregus a di-adnewyddadwy gweddillion archeolegol fel rhan o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru. Fe fyddwn yn ymofyn cyngor Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RP) a Cadw cyn ymgymryd â'g unrhyw archwiliadau ymwithiol ar safle neu waith adferol, a phan yn briodol bydd asesiad archeolegol ffurfiol yn cael ei gyflawni er mwyn llunio a phennu argymhellion. Pan fydd gweddillion o bwysigrwydd cenedlaethol yn bodoli, fe fydd rhagbydiaeth o ffafrio cadwraeth ar y safle. Bydd angen caniatâd blaenorol henebion rhestredig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer archwiliadau neu waith ar henebion rhestredig.

### **6.2.4 Cnydau Amaethyddol a Garddwriaethol**

Er mai Awdurdod gwledig yw Cyngor Gwynedd ar y cyfan, nid yw'n fwiad gennym fanylu ar yr ardaloedd lle tyfir cnydau. Fodd bynnag fel rhan o'r ymagwedd systematig, rhoddir ystyriaeth i dir amaethyddol lle mae tystiolaeth o halogiad posibl yn y gorffennol neu o gnydau gwael y naill flwyddyn ar ôl y llall. Byddwn yn astudio arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol MAFF gynt mewn achosion o'r fath. Fe fydd angen cael gwybodaeth am y derbynnydd penodol er mwyn gwerthuso maint yr halogiad.

### **6.2.5 Cnydau coed**

**Mae yna ardaloedd mawr yng Ngwynedd lle tyfir coed at ddibenion masnachol. Planwyd coed mewn llawer achos ar dir sy'n anaddas ar gyfer amaethyddiaeth neu ddiwydiant. Ystyrir ei bod yn anhebygol, felly, y byddant yn dioddef effeithiau drwg, ond fe fyddwn yn ymgynghori â'r Fenter Coedwigaeth mewn achosion o'r fath.**

### **6.2.6 Cynnyrch a dyfir gan ddeiliaid tai**

Fe fyddwn yn ystyried rhandiroedd yng Ngwynedd a'r posibilrwydd y cânt eu halogi o ganlyniad i ddefnydd neu weithgaredd blaenorol. Yn yr un modd, fe fydd unrhyw erddi domestig y gallent fod wedi eu halogi o ganlyniad i ddefnydd halogol blaenorol hefyd yn cael eu nodi a'u hasesu.

### **6.2.7 Da byw amaethyddol, helfilod ac anifeiliaid eraill a berchnogir**

Ni fydd presenoldeb da byw yn rhannau gwledig y Sir yn cael eu nodi'n benodol, ond rhoddir ystyriaeth iddynt lle gallent fod wedi eu halogi trwy gyswllt posibl â thir amaethyddol. Dylid nodi y gallai da byw fod â halogwyr ynddynt trwy fwyta planhigion a thrwy'r pridd a gwreiddiau'r planhigion hynny.

### **6.2.8 Derbynyddion Ecolegol (gweler Tabl A, Atodiad I am y diffiniadau)**

Nodir pob derbynnydd o'r fath fel rhan o'r strategaeth archwilio. Er bod halogiad yn anhebygol, fe fydd pob ardal yn cael ei harchwilio'n drylwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw risg yn cael ei fesur. Fe fyddwn yn ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrth ystyried safleoedd o'r fath.

### **6.2.9 Dyfrhaenau**

Nid yw'r ardal yn dibynnu ar ddyfrhaenau dŵr daear am ei chyflenwadau dŵr. Fodd bynnag, nodir pob dyfrhaen yn benodol, ynghyd â'u lleoliad, eu dyfnder a'u potensial i gael eu niweidio. Fe fyddwn, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ystyried yn ofalus y risgiau posibl i bob dŵr daear oddi wrth ffynonellau halogiad a nodwyd.



#### 6.2.10 Cyflenwadau dŵr cyhoeddus

**Fe fyddwn yn nodi pob man tynnu cyflenwad dŵr cyhoeddus ynghyd â'i leoliad ac ansawdd a swm y cyflenwad. Fe fyddwn yn cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru Welsh Water er mwyn sicrhau bod y data yn fanwl gywir.**

#### 6.2.11 Cyflenwadau dŵr preifat

Mae gan nifer fawr o eiddo yn yr ardaloedd gwledig gyflenwadau dŵr preifat. Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn monitro'r cyflenwadau hyn fel rhan o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991, ac yn cadw cofrestr o ganlyniadau'r dadansoddiad. Byddwn yn ystyried eiddo â chyflenwadau dŵr preifat yng nghyffiniau tir a allai fod yn halogedig yn flaenoriaeth.

#### 6.2.12 Mannau tynnu dŵr awdurdodedig eraill

**Nodwyd pob man tynnu dŵr awdurdodedig, megis y rheiny a fwriadwyd at ddibenion amaethyddol neu hamdden. Fe fyddwn yn gwerthuso'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg o halogiad dŵr a thir trwy'r broses yma.**

#### 6.2.13 Derbynyddion dŵr penodol eraill

**Byddwn yn nodi yr holl dderbynyddion dŵr eraill megis afonydd, cronfeydd dŵr, llynnoedd, pysgodfeydd dŵr croyw, dynodiadau creginbysgod a dynodiadau dyfroedd ymdrochi fel rhan o'r strategaeth archwilio.**

### 6.3 Halogwyr

**Unwaith y bydd math a lleoliad y derbynyddion wedi eu nodi, fe fydd presenoldeb posibl halogwyr yn cael eu gwerthuso, fel y gwelir isod:**

#### 6.3.1 Hanes diwydiannol

Rhoddir rhestr o ddefnyddiau halogol posibl yn Atodiad III. Fe fydd archwilio'r data hanesyddol ar ffurf hen fapiau'r Arolwg Ordnans, cofnodion a chyfarwyddiaduron masnach ac ati yn gam cyntaf yn y broses o nodi safleoedd allai fod yn halogedig. Fe fydd pobl yr ardal yn cofio peth o'r diwydiant, felly fe allai gwybodaeth leol fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

#### 6.3.2 Diwydiant cyfredol

Mae'n bosibl fod ardaloedd diwydiannol presennol Gwynedd yn ffynonellau halogiad ac fe archwilir y rhain yn unol â'r Canllawiau Statudol er mwyn penderfynu a oes halogiad, ac os felly, a oes unrhyw asiantaeth neu drefn arall yn ei reoli. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y mecanwaith cyfredol ar gyfer rheoleiddio diwydiant yn ddigonol wrth atal unrhyw halogiad pellach o'r tir neu ddŵr.

### 6.3.3 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Rhan I

**Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosesau 'Rhan A' y mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn eu hawdurdodi dan y drefn IPC yng Ngwynedd. Fe fyddwn yn cynnal y cyswllt agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn sicrhau bod y rheolaethau hyn yn cael eu cymhwyso'n llwyddiannus, lle bo angen, yn y tymor byr a'r tymor hir.**

**Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdodi 60 o brosesau 'Rhan B' yn gysylltiedig â rheoli llygredd yr awyr (LAPC). Mae amrywiaeth eang iawn o brosesau wedi eu hawdurdodi dan LAPC, o weithfeydd sypynnu concrit i orsafoedd petrol. Mae'n bosibl y gallai rhai o'r prosesau hyn lygru'r tir.**

### 6.3.4 Sylweddau Peryglus

**Yn ôl Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 a Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992, mae'n rhaid cael caniatâd i gael mwy o sylweddau peryglus ar y tir na swm penodol. Diwygiwyd y rheoliadau hyn yn ddiweddar gan Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) 1999 er mwyn ystyried y Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) 1999 (COMAH) (gweler isod). Ni cheir unrhyw safleoedd awdurdodedig o'r fath yng Ngwynedd.**

### 6.3.5 Safleoedd COMAH

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (cyd-awdurdodau cymwys) sy'n gorfodi'r Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) 1999 i reoli risgiau ar y safle ac oddi arno ymhlith y diwydiannau sydd â photensial uchel i achosi trychineb oherwydd sylweddau peryglus (fflamadwy, tocsig neu ffrwydrol). Cedwir manylion safleoedd COMAH ar y Gofrestr Sylweddau Peryglus. Mae 5 o safleoedd yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

### 6.3.6 Safleoedd NIHHS

**Cedwir manylion pob safle yr hysbyswyd hwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan Reoliadau Hysbysiad o Sefydliadau sydd yn Trin Sylweddau Peryglus 1982 (NIHHS) ar y Gofrestr Sylweddau Peryglus. Mae 3 safle o'r fath yng Ngwynedd ar hyn o bryd.**

#### 6.3.7 Ffrwydron

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Adain Safonau Masnach Cyngor Gwynedd sy'n rheoli'r rhain dan Ddeddf Ffrwydron 1875. Fe fydd unrhyw safleoedd trwyddedig yn cael eu nodi a'u hasesu er mwyn canfod y risg o halogiad tir a dŵr.**

#### 6.3.8 Safleoedd tirlenwi a phrosesu gwastraff cyfredol

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy'n trwyddedu'r rhain dan ddarpariaethau Rhan II DDA 1990. Mae'r Asiantaeth wedi darparu manylion yr holl safleoedd hyn at y diben dan sylw.

#### 6.3.9 Safleoedd tirlenwi a gaewyd

Mae safleoedd tirlenwi a gaewyd yn ffynhonnell risg sylweddol, yn enwedig y rheiny oedd ar waith cyn gofynion trwyddedu Deddf Rheoli Llygredd 1974. Gwneir pob ymdrech i adnabod safleoedd tirlenwi a gaewyd yng Ngwynedd, ac i ystyried yn fanwl i ba raddau maent yn gysylltiedig ag unrhyw dderbynyddion penodol. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn wedi ei gadw ar Sustem Wybodaeth Ddaeryddol (SWD) Corfforaethol yr Awdurdod.

#### 6.3.10 Gwaith carthffosiaeth a thir a ddefnyddir i waredu llaid carthion

**Hysbysir Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynglŷn â thir sydd i'w ddefnyddio i waredu llaid carthion, a hynny dan Rheoliadau (Defnydd mewn Amaethyddiaeth) Slwtsh 1989. Fe fyddwn yn nodi ac yn asesu'r tir hwn, ynghyd â phob gwaith carthffosiaeth sydd neu a fu'n gweithio.**

#### 6.3.11 Mwyngloddiau ac echdynnu mwynau

Mae daereg y Sir wedi arwain at echdynnu metelau anfferus a llechi mewn ardaloedd helaeth ohoni. Llanwyd rhai o'r chwareli â gwastraff neu ddeunyddiau eraill ar ôl eu cau. Fe fydd pob hen chwarel a safle mwyngloddio yn cael ei asesu o ran risgiau allai fod yn bresennol ynddynt.

#### 6.3.12 Tir gwastraff neu segur

Y gwasanaethau cyffredinol, y rheilffyrdd neu'r Awdurdodau Lleol sy'n berchen ar dir segur neu wastraff yn aml. Mae'n ymddangos fel pe byddai wedi ei adael yn segur oherwydd nad oes unrhyw ddefnydd penodol ar ei gyfer, neu oherwydd ei fod yn anodd ei gyrraedd. Yn aml, defnyddiwyd tir o'r fath i waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe fydd rheoliadau gwaredu gwastraffu yn cael eu gorfodi pan fydd angen, er mwyn symud y gwastraff a thrin canlyniadau'r gwastraff hwnnw. Fe fyddwn yn nodi unrhyw dir segur ac yn ei asesu o ran risgiau halogiad, yn unol â'r Canllawiau Statudol.

### 6.3.13 Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn

Fe fyddwn yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn ag ardaloedd yn y Sir, fel y bo angen. Fe fyddwn yn archwilio'r ardaloedd hyn, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fel y bo angen, yn unol â'r Canllawiau Statudol.

### 6.3.14 Safleoedd halogedig a ddatblgwyd yn flaenorol

Mae'n bosibl y bydd archwiliad o'r Sir yn nodi safleoedd allai fod yn halogedig sydd eisoes wedi eu hailddatblygu. Mae'n bosibl na fydd dulliau a graddau'r adfer yn hysbys. Fe fyddwn yn ailasesu safleoedd o'r fath yn unol â'r Canllawiau Statudol.

## 6.4 Gwybodaeth arall

Mae'n orfodol i'r wybodaeth a gesglir fod yn ddigonol, o ran maint a manwl-gywirdeb, er mwyn sicrhau y bydd yn gallu cyfrannu at y trefniadau blaenoriaethu risg, a fydd yn eu tro yn caniatáu inni flaenoriaethu safleoedd i'w harchwilio ac i bennu eu statws.

Fe werthusir y wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod, ac fe fydd hyn yn ein galluogi i nodi unrhyw fylchau yn y wybodaeth. Fe fydd sicrhau ein bod yn cael yr holl setiau data allweddol trwy ddefnyddio'r System Wybodaeth Ddaeryddol (SWD) Gorfforaethol yn hwyluso'r dasg o adnabod a blaenoriaethu safleoedd.

Yna fe fydd angen chwilio am ffynhonnell unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn berthnasol i'r broses o bennu statws y safle ei hun. Mae'n debygol y byddwn yn ymgymryd â hyn fesul safle. Fe fydd rhaglen gyflawn y broses casglu gwybodaeth yn destun adolygiad parhaus er mwyn i'r wybodaeth barhau i fod yn ddiweddar ac yn berthnasol.

Fe fydd angen casglu gwybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol. Nodwyd cysylltwyr allweddol ar gyfer y darparwyr gwybodaeth mewnol, trwy Weithgor Tir Halogedig Gwynedd. Nodwyd darparwyr gwybodaeth allanol hefyd, ac fe fyddwn yn cysylltu â'r rhain pan fydd angen.

Fe fydd caffael gwybodaeth yn broses fyw a fydd yn parhau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth honno bob amser yn fanwl-gywir ac yn gyflawn.

## 6.5 Gwybodaeth a Chwynion

Yn ogystal â'r rhaglen waith sy'n gysylltiedig â Rhan IIA DDA 1990, fe fydd yr Awdurdod yn derbyn cwynion oddi wrth aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â halogiad tir.

Fe fydd yr Awdurdod yn trin cwynion yn y modd a ganlyn:

- Yn unol â thargedau perfformiad yr Uned Rheoli Llygredd, fe all achwynwyr ddisgwyl ymateb i'w cwynion o fewn 3 diwrnod gwaith o'i dderbyn.
- Yn ogystal â hyn, gallant ddisgwyl inni drin eu cwynion yn gyfrinachol yn unol â pholisi cyffredinol Cyngor Gwynedd. Amddiffynnir cyfrinachedd, er y bydd hyn yn ddarostyngedig i amodau datgelu y mae'r Gyfraith yn eu gorfodi.
- Fe fydd holl fanylion cwyn yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata cwynion Adain Gwarchod y Cyhoedd.

- Byddwn yn rhoi gwybod i achwynwyr o'r datblygiad a wnaed o ran archwilio a datrys eu cwyn.

Dylid anfon unrhyw wybodaeth neu gwyn yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a chynnwys:

- Enw a chyfeiriad yr hysbyswr/achwynwr
- Cyfeiriad y safle
- Manylion penodol y gŵyn/y wybodaeth dan sylw

Dylid anfon pob gohebiaeth at y Swyddog Llygredd (mae'r manylion cysylltu i'w gweld ym Mhenod 11).

## **6.6 Gwybodaeth a ddarparwyd yn anhysbys**

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn derbyn gwybodaeth oddi wrth ffynonellau sydd am fod yn anhysbys. Fe fydd y wybodaeth hon yn cael ei gofnodi ar y gronfa ddata (ITECS), gan nodi bod y sawl a'i hanfonodd yn dymuno bod yn anhysbys. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gallai gwybodaeth o'r fath fod yn foleisus ei natur, yn ddrygionus, neu'n ddi-sail. Fe fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei drin, felly, â'r lefel briodol o ofal.

## **6.7 Tystiolaeth Anecdotaidd**

Fe all tystiolaeth anecdotaidd fod yn bwysig iawn wrth gasglu gwybodaeth, ac fe all fod yn werthfawr dros ben pan nad oes cofnod o'r wybodaeth i'w gael yn unman arall. Unwaith eto, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gallai gwybodaeth o'r fath fod yn anghywir o ran ei ffeithiau. Fe fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei drin, felly, â'r lefel briodol o ofal.

## **6.7 Cyfrinachedd**

Ni ddynodir gwybodaeth y mae cwmni neu unigolyn yn ei darparu yn wybodaeth 'gyfrinachol' oni bai y nodir hynny pan ddaw i law. Rhoddir enw a chyfeiriad y sawl a roddodd wybod inni yn unig i'r ymholwr, ond ni ddatgelir unrhyw fanylion eraill o unrhyw adroddiad, gohebiaeth ac ati.

## **6.8 Gwerthuso Gwybodaeth**

### **6.8.1 Gwerthuso gwybodaeth ar niwed neu lygredd gwirioneddol**

Bwriad Cyngor Gwynedd yw defnyddio'n llawn alluoedd ei System Wybodaeth Ddaearyddol i storio a gwerthuso data. Yna mae modd arddangos y data yn ofodol ar fap Arolwg Ordians ar ffurf 'haenau digidol'. Yn y modd yma, gellir edrych ar leoliadau safleoedd â halogiad posibl yng nghyd-destun ardaloedd sy'n cynnwys derbynyddion sensitif.

I werthuso'r holl wybodaeth berthnasol at ddibenion y Strategaeth Archwilio hon, bwriad yr Awdurdod yw datblygu trefn blaenoriaethu ar sail asesiad o'r risg ddaw o unrhyw dir allai fod yn halogedig.

Ceir disgrifiad pellach isod o'r weithdrefn hon, a fydd yn ystyried difrifoldeb y ffynonellau llygredd posibl a sensitifrwydd y derbynyddion. Cyn gynted ag y bydd y setiau data allweddol wedi eu harchwilio, fe fyddwn yn defnyddio'r weithdrefn hon ar gyfer pob safle a nodwyd fel un â risg yn perthyn iddo. Fe fydd hyn yn rhoi sgôr ar gyfer y risg ac fe fydd yn hwyluso archwilio pellach mewn dull drefnus, rhesymol ac effeithiol.

**Gwerthusir yr holl dderbynyddion dŵr yn unol â 'Environment Agency Technical Advice to Third Parties on Pollution of Controlled Waters for Part IIA of the Environmental Protection Act 1990' ynghyd â chanllawiau**

**perthnasol eraill sydd wedi eu cyhoeddi. Gofynnir am gyngor pellach gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar safleoedd penodol yn ôl yr angen.**

### **6.8.2 Methodoleg Blaenoriaethu Risg**

Bwriad yr Awdurdod yw mabwysiadu methodoleg blaenoriaethu risg a fydd yn ei alluogi i symud o sefyllfa lle mae'n ystyried yr ardal gyfan y mae'n gyfrifol amdano, i sefyllfa lle mae'n ystyried is-ardaloedd, neu safleoedd. Nid yw'r sistem sgorio wedi ei chwblhau eto, ond mae disgwyl y bydd yn cynnwys y fformat ganlynol: -

- **Dosbarthiad Safleoedd**

Crëwyd cynllun i ddsbarthu pob defnydd o safle allai halogi'r safle hwnnw. Dosbarthwyd prosesau diwydiannol yn dilyn adolygiad Proffiliau Diwydiant Adran Amgylchedd y Llywodraeth. Rhoddwyd sgôr o rhwng 5 a 25 i bob categori, yn ôl ei botensial i achosi halogiad. Seilir y sgorio ar werthusiad o'r halogwyr tebygol ac ar farn broffesiynol. Cyflwynir y cynllun yn llawn yn Atodiad III.

- **Dosbarthiad Derbynyddion**

Crëwyd cynllun hefyd i ddsbarthu derbynyddion. Mae'r cynllun wedi ei seilio ar y Canllawiau Statudol, ac fe ddiffiniwyd pum categori. Yna fe bennwyd sgôr ar gyfer pob categori o 10 (risg uchel) i 1 (risg isel), gan ystyried ei sensitifrwydd amgylcheddol a blaenoriaethau'r Awdurdod o ran gwarchod yr amgylchedd. Cyflwynir y cynllun yn llawn yn Atodiad IV.

- **Bodolaeth Llwybrau**

Ni fydd y blaenoriaethu cychwynnol yn cadarnhau bodolaeth llwybr, nac yn darparu gwybodaeth ynghylch ei natur nac yn cadarnhau ei fod yn ddi-fwlch. Ni roddir ystyriaeth i lwybrau mudiad ochrol yn y cyfnod yma chwaith. Fe fydd y materion hyn yn cael eu hystyried ar fesul safle yn ystod y cyfnod archwilio manwl.

- **Blaenoriaethu rhagarweiniol o ran Safleoedd**

Byddwn yn diffinio yr ardaloedd a allai fod yn achos halogiad, a'r derbynyddion a nodwyd, yn ein barn ni ac yna fe fyddwn yn eu cofnodi o fewn y SWD trwy ddefnyddio polygon (ffiniau). Fe fydd y polygonau hyn yn creu model safle cysyniadol fydd yn caniatáu inni bennu sgôr risg ar ei gyfer ar sail y categorïau a ddisgrifir uchod. Yna fe ddefnyddir y fethodoleg i sefydlu tabl blaenoriaethau risg o ran yr holl safleoedd y mae angen eu harchwilio ymhellach.

### **6.8.3 Asesu Risgiau ar safle penodol**

---

Wrth benderfynu, fe fyddwn yn dilyn canllawiau perthnasol ar asesu risg, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i amgylchiadau'r cysylltedd llygrol a'r tir dan sylw, a bod unrhyw amgylchiadau penodol wedi eu hystyried yn y modd priodol.

Yn y gorffennol arferid asesu risg tir halogedig mewn perthynas â chanllawiau generig yr oedd yr Interdepartmental Committee on Redevelopment of Contaminated Land (ICRCL) yn eu cyhoeddi. Nifer fechan o halogwyr yn unig y mae gwerthoedd ICRCL yn eu cwmpasu, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i un safle. Datblygodd rhai gwledydd eraill werthoedd yn ganllawiau ar gyfer halogwyr eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y rhain wedi eu datblygu â thybjaethau gwahanol nad ydynt yn berthnasol i'r DG, naill ai oherwydd cyflwr gwahanol y tir neu wahanol amcanion i'r polisiau.

Mae'r DG wedi datblygu offeryn asesu risg ar safle penodol, sef y 'Contaminated Land Exposure Assessment Model' neu CLEA. Fe werthusir gwybodaeth ynglŷn â halogwyr allai achosi niwed gwirioneddol neu lygredd yn ôl model CLEA, sy'n defnyddio technegau tebygolrwydd i asesu risgiau halogyn/halogwyr i'r derbynyddion (gan ystyried y gallai'r derbynyddion hynny fod yn agored iddynt am gyfnod hir), cyflwr y tir ac ati.

Mae'n bosibl nad fydd CLEA nac ICRCL yn berthnasol i rai halogwyr. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y gellir cyfeirio at y graddau y mae gwahanol alwedigaethau yn agored i risg oddi wrth halogwyr, yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu ffynonellau gwybodaeth awdurdodedig eraill, megis y canllawiau a fabwysiedir mewn gwledydd eraill. Lle cyfeirir at ganllawiau gwlad benodol, fe fydd cofio bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau adfer y DG a rhai y gwledydd eraill hyn hefyd yn bwysig.

## 7 GWEITHDREFNAU CYSYLLTU A CHYFATHREBU CYFFREDINOL

Fe fydd gweithredu'r Strategaeth Archwilio yn arwain at gasglu swm mawr o wybodaeth a allai fod o werth i garfanau eraill. Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth hon yn benodol i un safle, neu fe allai gyfeirio at Wynedd yn ei chyfanrwydd. Mae'r angen i sefydliadau gasglu a chyfnwid gwybodaeth er mwyn gallu llunio penderfyniadau yn rhan annatod o'r broses gyfan, felly. Nod Cyngor Gwynedd yw cyrraedd consensws, trwy ymgynghori ac ymrwymiad effeithiol, lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r Bennod hon yn nodi'n fras sut y gall carfanau eraill gyrru gwybodaeth, ac ar ba ffurf y bydd y wybodaeth hon ar gael. Mae'r bennod hefyd yn manylu ar ba garfanau y bydd y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt yn fater o drefn.

### 7.1 Cysylltu a Chyfathrebu Mewnol

Gan mai Uned Rheoli Llygredd Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd sydd â'r cyfrifoldeb am orfodi'r drefn, hwy fydd yn trin yr holl ymholiadau oddi wrth rai â buddiant yn y mater dan sylw, p'un a yw'r ymholiad yn tarddu o ffynhonnell fewnol ynteu un allanol. Yn ogystal â hyn, fe fydd yr Uned hon yn casglu yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â thir halogedig, ac yn gyfrifol am gadw a chynnal Gofrestr Gyhoeddus Tir Halogedig, gan ddynodi tir yn Dir Halogedig a chynnal rhan archwilio'r strategaeth.

Fel y nodwyd eisoes, sefydlodd Cyngor Gwynedd Weithgor Tir Halogedig i hwyluso'r cysylltu â'r cyfathrebu o fewn y Cyngor. Gweler Pennod 11 am fanylion cysylltu. Mae gan lawer o aelodau'r Gweithgor wybodaeth ychwanegol yn eu hadrannau eu hunain sydd wedi cyfrannu at baratoi'r Strategaeth, ac/neu a fydd yn cynorthwyo â'i gweithredu.

Fe fyddwn yn sicrhau bod cyfathrebu da o fewn y Gweithgor trwy gynnal cyfarfodydd â chofnodion, cyfnwid gwybodaeth ar system e-bost y Cyngor neu drwy femoranda, a thrwy drosglwyddo gwybodaeth i SWD y Cyngor. Fe fydd y Gweithgor yn llywio ac yn monitro gweithrediad y Strategaeth hefyd, ac yn cynorthwyo i nodi, archwilio ac adfer tir y Cyngor.

### 7.2 Cyswllt Allanol â Chyrff Statudol

Mae'r Canllawiau Statudol yn gofyn bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori â nifer o gyrff cyhoeddus wrth ddatblygu ei ddull strategol o archwilio.

Yn ystod yr Archwiliad Manwl, mae'n bosibl y bydd yn angen i'r Cyngor gysylltu â charfanau eraill neu ymgynghori â hwy am y rhesymau canlynol:

- i benderfynu a yw neu a allai'r safle fod yn destun archwiliad dan drefn reoliadol arall;
- i ddarganfod neu i geisio gwybodaeth sy'n benodol i un safle;
- i wneud cais am gymorth neu gyngor ar gyfer ymweliad â'r safle neu archwiliad ymwithiol â'r safle;
- i drafod darganfyddiadau a/neu geisio cymorth wrth asesu'r ffeithiau os yw safle'n croesi ffiniau dau awdurdod lleol;
- i drefnu mynediad i'r safle.

Wrth iddo gynnal ei Archwiliad Manwl, mae'r Cyngor yn debygol o ymgynghori'n rheolaidd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cadw a'g Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Adran 11.2 yn rhestru partneriaid allanol a phwyntiau cyswllt Cyngor Gwynedd. Fe fyddwn yn ymgynghori â'r cyrff hyn ynghylch safleoedd y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt (naill ai fel rheolydd, perchennog neu feddiannwr) neu y mae ganddynt ryw ymwneud â hwy (er enghraifft oherwydd eu bod wedi dynodi'r safleoedd yn ardaloedd dan warchodaeth). Fe fydd ymgynghori yn sicrhau nad ydym yn dyblygu gwaith archwilio nac yn gorgyffwrdd o ran y gweithgaredd rheoliadol.

Bydd gofyn iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt ynglŷn â safle penodol, yn enwedig unrhyw wybodaeth allai gynorthwyo wrth adnabod cysyllteddau llygrol neu gysyllteddau llygrol posibl. Yn anad dim, ystyrir hi'n debygol y bydd y cyrff dan sylw yn medru darparu gwybodaeth benodol am dderbynyddion, eu



sensitifrwydd, ac felly, effaith bosibl bod yn agored i halogwyr neu niwed posibl allai godi o ganlyniad i archwiliadau ymwithiol o'r safle. I gydnabod eu gwybodaeth a'u meysydd arbenigedd, fe fyddwn yn gofyn i'r cyrff statudol hyn ddarparu cyngor neu gymorth ar gyfer yr ymweliad â'r safle, ac ar gyfer agweddau archwiliad ymwithiol o'r safle yn ystod yr Archwiliad Manwl.

Fe fydd y Cyngor yn hysbysu'r corff statudol perthnasol yn rheolaidd am ei weithgareddau ar unrhyw safle penodol. Fe fydd yn ymgynghori â'r corff fel rhan o'r broses benderfynu, ac yn enwedig wrth benderfynu a oes cysylltedd llygrol, a/neu beth yw ei arwyddocâd.

Mae rhan IIA yn gofyn bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn darparu cymorth a chynghor i awdurdodau lleol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer safle penodol. Fel y nodwyd yn yr adrannau blaenorol, fe fyddwn yn ymgynghori â'r Asiantaeth ynghylch safleoedd lle mae pryder ynghylch llygriad dyfroedd a reolir neu lle y gellir diffinio'r safle yn Safle Arbennig. Yn yr achos cyntaf, fe fyddwn yn gofyn i'r Asiantaeth gynorthwyo wrth asesu unrhyw ddata labordy ac wrth benderfynu a oes cysyllteddau llygrol yn bresennol, ac oes felly beth yw eu harwyddocâd.

### **7.3 Cyswllt ag Awdurdodau Lleol Eraill**

Mae'n bosibl y gallai cysylltedd llygrol fodoli ar draws ffiniau gweinyddol Gwynedd. Mae Gwynedd yn rhannu ffiniau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Lle cwyd sefyllfa o'r fath, fe fydd y Cyngor yn cydweithio â'r awdurdod cyfagos i gytuno ar ddull asesu sy'n dderbyniol gan y ddau awdurdod, a lle bydd angen, bydd yn adfer y safle.

Os yw'r Awdurdod yn amau bodolaeth cysylltedd llygrol trawsffiniol, yna fe fydd yn hysbysu'r awdurdod cyfagos perthnasol o fewn 10 diwrnod gwaith. Os yw'r awdurdod o'r farn y gallai fod angen gweithredu ar frys, yna fe fydd yr hysbysu yn digwydd ar unwaith. Yr awdurdod y mae ffynhonnell y broblem o fewn ei ffiniau fydd yr awdurdod gorfodi.

### **7.4 Cyswllt â Budd-ddeiliaid**

Fe fydd y Cyngor yn cysylltu fel mater o drefn â'r perchennog/y meddiannwr neu rai eraill â buddiant yn y mater (er enghraifft cymdogion neu ddefnyddwyr y safle, neu'r rheiny y gallai halogwyr ar y safle effeithio arnynt) yn achos pob safle y cynhelir archwiliad ohono, i geisio cael gwybodaeth ychwanegol ar gyfer safle penodol. Fe fyddant yn cael gwybod os yw'r wybodaeth ddaw i law ac a werthusir fel rhan o astudiaeth ar bapur yn awgrymu'n gryf bod cysyllteddau llygrol i'w cael ar y safle. Fe fydd hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o rôl statudol y Cyngor o ran tir halogedig, ac yn annog eu cydweithrediad wrth gyfnewid gwybodaeth berthnasol bellach.

### **7.5 Cyfathrebu Risg**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i osgoi dychryn ac amhariad posibl trwy greu canfyddiad o risg uchel, a hynny'n ddiangenraidd, wrth gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch materion halogi tir. Fe fydd yn egluro'r rhesymau dros ofyn am wybodaeth, ynghyd â dyletswyddau statudol y Cyngor ac fe fydd yr holl gyfathrebu yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyflwynir yn '*Communicating Understanding of Contaminated Land Risks*' (2000) a gyhoeddir gan SNIFFER (Fforwm Ymchwil Amgylcheddol Yr Alban a Gogledd Iwerddon).

### **7.6 Trefnu Mynediad i'r Safle**

Ar bob achlysur, fe fydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod ei weithdrefnau i gael mynediad i'r safle yn rhesymol ymhob ffordd ac yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion Deddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Iawnderau Dynol 1998.

Fe fydd y Cyngor yn rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn i eiddo preswyl neu unrhyw safle lle disgwylir cynnal archwiliad ymwithiol ohono ag offer trwm (cloddwyr, rigiau drilio ac ati). Os na fydd y meddiannwr yn rhoi caniatâd ar gyfer yr archwiliad, fe fydd y Cyngor yn ceisio sicrhau gwarant Ynadon i gael mynediad.

### **7.7 Cysylltiad â Rhai Eraill â Buddiant**

Yn ystod archwiliad manwl, fe allai fod yn bosibl i'r Cyngor gysylltu â charfanau eraill a/neu ymgynghori â hwy.

## **7.8 Y Wasg a'r Cyfryngau**

Dylai unrhyw gynrychiolydd o'r wasg a'r cyfryngau eraill sydd am drafod materion tir halogedig, gan gynnwys y Strategaeth hon gysylltu ag Uned Cyfathrebu Cyngor Gwynedd ar 01286 679503.

## 8 Y RHAGLEN ARCHWILIO

Mae penodau blaenorol y Strategaeth hon wedi disgrifio'r dull y bydd yr Awdurdod yn ei fabwysiadu wrth nodi ardaloedd a safleoedd lle gallai halogiad ddigwydd. Nod y bennod hon yw rhoi syniad bras o sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnal archwiliadau manwl o'r safleoedd hyn, a thrwy hynny sut y bydd yn cydymffurfio â pharagraffau 2.18 hyd 2.25 y canllawiau ar 'Archwilio Darnau Penodol o Dir'.

### 8.1 Materion lleol

Disgwylir y bydd prif ffocws asesiadau'r Cyngor yn ymwneud â hen safleoedd tirlenwi lle ceir problemau megis trwytholchion neu allyriadau nwy methan, ac mae Adain Gwarchod y Cyhoedd yn cadw manylion lleoliadau llawer o'r safleoedd hyn. Fodd bynnag, prin yw'r cofnodion ynglŷn â'r math o wastraff a gleddid mewn safleoedd tirlenwi. Ymhlith y safleoedd eraill y mae disgwyl i'r Cyngor eu hasesu mae hen sefydliadau milwrol, gweithfeydd nwy, garejys masnachol a safleoedd peirianeg ysgafn. Fe fyddwn yn ailasesu safleoedd a oedd wedi'u halogi cynt ac a gafodd eu trin trwy'r broses Cynllunio i sicrhau bod yr holl dderbynyddion wedi'u hystyried fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r safle.

### 8.2 Meini prawf wrth ddewis ardaloedd a safleoedd unigol

Fel y nodwyd eisoes, fe fyddwn yn blaenoriaethu wardiau yn ôl swm a math y derbynyddion, fel yr amlinellwyd yn adran 4.1. Fe fydd safleoedd a nodwyd fel rhai ag angen archwiliad manwl yn cael eu blaenoriaethu trwy system sgorio risg mwy manwl, gyda phwyslais ar warchod iechyd dynol (Gweler Pennod 6). Bydd llygru dyfroedd a reolir yn cael eu blaenoriaethu yn unol â '*Environment Agency Technical Advice to Third Parties on Pollution of Controlled Waters for Part IIA of the Environmental Protection Act 1990*'. Gofynnir am gyngor pellach gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar safleoedd penodol.

### 8.3 Gweithgareddau

Swyddog Llygredd yr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd fydd yn rheoli'r gweithgareddau beunyddiol yn y rhaglen archwilio cychwynnol. Fe gytunir unrhyw benderfyniadau polisi trwy Weithgor Tir Halogedig Gwynedd cyn iddynt gael eu dwyn gerbron y pwyllgor priodol.

### 8.4 Amserlen

Isod fe welir amserlen arfaethedig Cyngor Gwynedd ar gyfer gweithredu Rhan IIA DDA 1990.

Gweithgaredd	Blwyddyn
Ymgynghori ar y strategaeth ddrafft	Ebrill/Mai 2002
Cyhoeddi'r strategaeth tir halogedig	Erbyn 1 <sup>af</sup> Hydref 2002
Archwiliad Rhagarweiniol o Wynedd, fesul ward	2002 – 2005 (i'w adolygu'n gyson)
Archwiliad Manwl	O Ionawr 2006 ymlaen
Safleoedd Brys	Cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddod yn hysbys i'r Awdurdod

#### 8.4.1 Asesu Goblygiadau Cyllidol yr Awdurdod Lleol

Unwaith y bydd y safleoedd sydd gyda'r potensial i fod yn halogedig wedi eu blaenoriaethu, bydd asesiad o'r goblygiadau cyllidol sydd yn wynebu'r Cyngor fel awdurdod gorfodi, tir feddiannwr a llygrwr yn cael ei gyflawni.

### 8.5 Trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad manwl

Fe fydd Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliad manwl o safleoedd lle gwelwyd o'r asesiad ragarweiniol bod potensial ar gyfer halogiad, er mwyn:

- Penderfynu, yn unol â'r canllawiau p'un a yw'r tir hwnnw yn ymddangos fel pe byddai'n dir halogedig ai peidio; a
- Penderfynu p'un a yw tir o'r fath o fewn diffiniad safle arbennig yn Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001, ac felly a oes gofyn iddo gael ei ddynodi'n safle arbennig.

### **8.5.1 Dulliau Archwilio**

Fe fydd natur yr archwiliad manwl yn amrywio o safle i safle, ac fe allai gynnwys un neu bob un o'r tri cham a nodir isod. Fe fydd diffyg digon o wybodaeth i benderfynu a yw tir yn halogedig ai peidio yn ystod un cam o'r archwiliad yn ysgogi'r cam nesaf.

1. Casglu ac asesu gwybodaeth ddogfennol a gwybodaeth arall gan gyrff a sefydliadau sy'n ymwneud â'r safle penodol hwnnw;
2. Archwiliad gweledol o'r safle, ac mewn ambell achos, peth samplo; neu
3. Archwiliad ymwithiol o'r tir, gan gynnwys samplo a dadansoddi priddoedd y safle a/neu dŵr daear.

Fe fydd pob archwiliad yn destun canllawiau awdurdodedig cyhoeddedig a chodau ymarfer.

Pan geir gwybodaeth ddigonol nad yw o leiaf un cysylltedd llygrol (h.y. ffynhonnell, llwybr neu dderbynnnydd), yn bodoli, yna fe ddaw'r archwiliad o'r safle hwnnw i ben. Mae'n rhaid i'r tri amod hyn fod yn bresennol er mwyn i'r safle hwnnw fod o fewn diffiniad tir halogedig. Felly os yw o leiaf un yn absennol, ni ellir trin y safle dan y rheoliadau hyn.

### **8.6 Cyswllt ynglŷn â safleoedd penodol**

Wrth gynnal archwiliad manwl o safle, fe fydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu dull rhyngweithiol lle ceir cyswllt ac ymgynghoriad â phob unigolyn ac asiantaeth sy'n ymwneud â'r mater.

#### **8.6.1 Ymgynghori â Pherchnogion a phersonau priodol**

Bwriad Cyngor Gwynedd yw cysylltu â pherchnogion/meddianwyr safle yn gynnar yn y broses o'i archwilio. Fe fydd yr Awdurdod yn defnyddio gwybodaeth pobl leol a chysylltiadau lleol ac yn cyfeirio'n drylwyr at gyfeiriaduron a ffynonellau gwybodaeth eraill wrth nodi'r perchennog/meddiannwr cyfredol.

Fel rhan o'r cyswllt cychwynnol â pherchnogion a meddianwyr, fe fydd yr Awdurdod yn diffinio'i swyddogaeth dan y rheoliadau; yn amlinellu'r broses asesu ac yn gofyn am fanylion penodol am y safle. Er mwyn sicrhau cysondeb, ansawdd a chofnod asesu y mae modd ei archwilio, fe fydd yn gofyn am y wybodaeth mewn holiadur safonol.

Bydd gofyn hefyd i'r perchennog ganitau archwiliad o'r safle trwy gerdded drwyddo. Fodd bynnag, pe bydd angen, fe fydd yr Awdurdod yn rhoi ei rym mynediad statudol ar waith i gwblhau unrhyw archwiliadau angenrheidiol.

#### **8.6.2 Ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrrff statudol eraill**

Wrth i Gyngor Gwynedd gynnal archwiliad manwl, mae'n debygol y bydd yn ymgynghori'n rheolaidd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw a'g Adran Amaethyddiaeth a Materion Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe fydd yn ymgynghori â'r cyrff yma ynglŷn â'r safleoedd y mae ganddynt beth cyfrifoldeb amdanynt (naill ai fel rheolwr, perchennog neu feddiannwr) neu ryw ymwneud arall â hwy (er enghraifft, os mai hwy ddynododd y safle yn ardal dan warchodaeth, er enghraifft). Fe fydd ymgynghori a bod yn agored ynglŷn â'r sefyllfa yn sicrhau eu bod yn osgoi unrhyw ddyblygu archwiliadau dianghenraid neu orgyffwrdd mewn gweithgaredd rheoliadol.

### **8.7 Safleoedd Arbennig Posibl**

Lle pennir tir yn dir halogedig, a'r tir hwnnw hefyd yn 'safle arbennig' o ran ystyr Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001, yna mae'n ofynnol iddo gael ei ddynodi yn safle arbennig. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer safleoedd arbennig. Dan yr amgylchiadau hyn, doeth fyddai hysbysu'r Asiantaeth yn

gynnar am dir o'r fath, ac fe fydd hyn yn dod yn weithred ffurfiol wrth i'r Awdurdod gwblhau'r Ffurflen Safonol ar gyfer Archwilio Safleoedd Arbennig Posibl.

Cyn i Gyngor Gwynedd awdurdodi neu gynnal archwiliad o'r tir gan ddefnyddio'i bŵerau mynediad statudol, fe fydd yn rhaid iddo ystyried a fyddai gofyn i'r tir gael ei ddynodi'n safle arbennig, pe gwelid ei fod yn halogedig. Os oes gan yr Awdurdod wybodaeth sy'n dangos hyn eisoes, yna fe fydd yn gwneud trefniadau ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gynnal yr archwiliad ar eu rhan.

Lle bo angen, fe fydd Cyngor Gwynedd yn awdurdodi unigolyn enwebedig o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ddefnyddio'r pŵer mynediad dan adran 108 Deddf Amgylchedd 1995 ac i gynnal archwiliad ar ei ran. Cyn i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gael yr awdurdod yma, bydd rhaid iddynt fodloni Cyngor Gwynedd ei bod wedi cwrdd ag amodau defnyddio'r pŵerau mynediad statudol y ceir amlinellid ohonynt ym mharagraffau 2.22 hyd 2.25 y Canllawiau.

## **8.8 Gweithdrefnau iechyd a diogelwch**

Mae iechyd a diogelwch yn fater allweddol ymhob cam o'r gwaith o archwilio ac asesu tir halogedig. Fe fydd gofyn i staff Cyngor Gwynedd ac unrhyw gontractwyr ac ymgynghorwyr y mae'r Awdurdod yn eu cyflogi sicrhau safonau Iechyd a Diogelwch llym. Cyn ymgymryd ag unrhyw waith maes, boed yn archwiliad safle neu'n archwiliadau ymwithiol, fe fyddwn yn ystyried y risgiau posibl i iechyd a diogelwch ac yn asesu'r risg er mwyn nodi unrhyw beryglon posibl a threfnu rhagofalon i leddfu effaith y peryglon hynny.

Byddwn yn ystyried y canllawiau yn y dogfennau canlynol:

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, '*Precaution of Workers and the General Public during the Development of Contaminated Land*' (1991);
- CIRIA Adroddiad 132, '*A guide for safe working on contaminated sites*' (1996).

## **8.9 Penodi Ymgynghorwyr**

Fe fydd y Cyngor, lle bo angen, yn defnyddio ymgynghorwyr ac arbenigwyr allanol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Fe fydd hyn yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol arferol, ac yn unol ag unrhyw orchmynion sefydlog. Wrth ddefnyddio gwasanaethau o'r fath, fe fydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod y carfanau enwebedig wedi eu hyfforddi'n briodol a bod ganddynt brofiad a medrusrwydd sy'n gymesur â'r gwasanaeth y mae gofyn amdano. Fe fydd y Cyngor yn cadw rhestr o gontractwyr sy'n gallu ymgymryd â strategaeth ymchwilio o ansawdd. Fe fydd yn hysbysebu gwahoddiadau i dendro, ac yn penodi contractwr addas.

## **9 MECANWEITHIAU ADOLYGU**

Mae penodau blaenorol wedi amlinellu'r Strategaeth ei hun, rhaglen waith ei gweithredu, a'r gweithdrefnau y bydd yr Awdurdod yn eu dilyn wrth roi'r Strategaeth ar waith. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y gallai fod angen adolygu neu ddiweddarau rhai o'r gweithdrefnau a geir o fewn y strategaeth hon.

Mae'r Bennod hon yn egluro pam, pryd a sut y bydd Cyngor Gwynedd dyn adolygu'r Strategaeth a'i gweithdrefnau.

### **9.1 Ysgogi adolygiad o benderfyniadau sy'n dilyn archwiliad**

Yn ogystal ag adolygu darganfyddiadau'r archwiliad, fe allai newid ddigwydd yng nghyflwr safle penodol neu ei amgylchoedd sy'n annog Cyngor Gwynedd i ailedrych ar ddarganfyddiadau'r archwiliad.

Fe fydd un neu fwy o'r mathau canlynol o amgylchiadau neu ddigwyddiadau yn ysgogi adolygiad o'r penderfyniadau sy'n dilyn archwiliad safle:

- Newidiadau arfaethedig o ran defnydd o'r tir o'i amgylch;
- Newidiadau o ran defnydd o'r tir na fwriadwyd iddynt ddigwydd (e.e. plant yn defnyddio'r tir yn gyson heb awdurdod);
- Digwyddiadau annisgwyl, e.e. llifogydd lleol, tirlithrad, damwain, tanau, gollyngiadau lle nad oes modd trin y sefyllfa trwy unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall ym maes gwarchod yr amgylchedd;
- Adroddiadau ynglŷn ag effaith ar iechyd lleol sy'n ymddangos fel pe byddent yn ymwneud ag un ardal benodol;
- Adroddiadau gwriadwy a dderbynnir gan fusnesau, aelodau o'r cyhoedd neu fudiadau gwirfoddol ynglŷn ag amodau anarferol neu anghyffredin ar y safle;
- Ymateb i wybodaeth oddi wrth gyrff statudol eraill;
- Ymateb i wybodaeth oddi wrth berchnogion neu feddianwyr tir, a rhai eraill perthnasol eraill â buddiant yn y mater.

Fe fydd Cyngor Gwynedd yn ystyried p'un a yw gwybodaeth o'r fath yn gwarantu adolygiad o ddarganfyddiadau'r archwiliad ar unwaith, y tu allan i'r cylchred adolygu arferol.

### **9.2 Adolygu'r Strategaeth Archwilio**

Ystyria Cyngor Gwynedd ei bod yn briodol cynnal yr adolygiad cyntaf o'r Strategaeth ar ôl iddo fod ar waith am un flwyddyn gyflawn, h.y. Hydref 2003. O hynny ymlaen, fe fydd yr adolygiadau yn cael eu cynnal ar sail blynyddol nes y bydd pob un o archwiliadau manwl arferol Gwynedd wedi'u cwblhau.

Ystyrir mai dyma'r ffordd mwyaf effeithiol ac effeithlon nid yn unig o sicrhau bod y Strategaeth yn ddiweddar ac yn adlewyrchu arferion cyfredol, ond hefyd ei bod yn realistig ac yn gyraeddadwy. Fe fydd adolygiad blynyddol yn ein galluogi ni i adolygu yr amserlen a thargedau yn briodol.

Y rheiny sy'n rhoi'r Strategaeth ar waith fydd yn cynnal yr adolygiad, mewn cysylltiad agos â Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd. Hefyd cynhelir trafodaethau ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'n rhaid i'r Asiantaeth asesu strategaeth pob awdurdod lleol a'i heffeithiolrwydd yn ei adroddiad ar gyflwr tir halogedig fel rhan o'i dyletswydd statudol dan Rhan IIA. Bydd Gweithgor Tir Halogedig Gwynedd yn ystyried ac o bosibl yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth. Fe adroddir ar unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r pwyllgor priodol er cymeradwyaeth.

### **9.3 Adolygiad Ariannol**

Er mwyn darparu darlun cyfoes o'r goblygiadau cyllidol y strategaeth archwilio tir halogedig, bydd asesiad blynyddol yn dechrau yn Hydref 2003 yn cael ei gwblhau.

## **10 RHEOLI GWYBODAETH**

Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn berchen ar wybodaeth sylweddol am dir mewn systemau papur ac electronig. Mae'n parhau i dderbyn gwybodaeth newydd yn rheolaidd am dir yn ei ardal, a hynny ar sawl fformat.

Fe fydd pob darn o wybodaeth ynglŷn â threfn tir halogedig dan Rhan IIA DDA 1990, yn cael ei gadw a'i gynnal gan Uned Rheoli Llygredd Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd.

### **10.1 Sustemau Storio**

Fe fydd y Sustem Wybodaeth Ddaearyddol (SWD) ynglŷn â Thir Halogedig yn ein galluogi i edrych ar yr holl ddata digidol ar yr un pryd. Fe fydd cronfa ddata Tir Halogedig yn cefnogi data'r SWD ac fe ddefnyddir hon i gofnodi, i gyfeirio ac i storio gwybodaeth sy'n benodol i'r safle dan sylw mewn fformat safonedig. Yn ogystal â hyn, fe fydd ffeil papur ar safleoedd penodol yn cael eu neilltuo ar gyfer data megis adroddiadau a gohebiaeth nad oes modd ei storio'n electronig. Fe fydd cyfeiriad at y ffeiliau hyn yn y cofnodion electronig am y safleoedd.

### **10.2 Mynediad i Wybodaeth**

Ym 1984, fe dderbyniodd Llywodraeth y DG argymhelliad y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd i'r Amgylchedd y dylid rhagdybio o blaid mynediad rhydd y cyhoedd i wybodaeth y mae'r awdurdodau rheoli llygredd yn ei chael neu ei derbyn yn rhinwedd eu pŵerau statudol. Mae gweithgareddau'r Uned Rheoli Llygredd o ran y drefn tir halogedig yn amlwg yn perthyn i'r categori dan sylw, ac ar y cyfan, fe fydd y wybodaeth y mae'r Uned Rheoli Llygredd yn ei chadw ar gael i'r cyhoedd yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau'n ymwneud â chyfrinachedd. Mae'r is-adrannau canlynol yn manylu ar y mynediad hwn.

### **10.3 Y Gofrestr Gyhoeddus**

Yn unol â Rhan IIA DDA 1990 a Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd gadw Cofrestr Gyhoeddus. Nid cofrestr o dir halogedig, nag o safleoedd allai fod yn halogedig nag ychwaith o safleoedd y mae'r Cyngor wedi eu harchwilio fel rhan o archwiliad manwl mo hon.

Cofnod parhaol yw'r gofrestr y mae modd i'r cyhoedd ei darllen, o'r holl weithredu rheoliadol y Cyngor i sicrhau bod Tir Halogedig yng Ngwynedd yn cael ei adfer. Nid yw'n gofnod o weithgareddau'r Cyngor yn ystod yr archwiliad manwl. Fe fydd y Gofrestr hefyd yn cynnwys y gweithredu a gafwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o ran Safleoedd Arbennig y Sir.

Fe fydd y Gofrestr Gyhoeddus yn cael ei chadw gan yr Uned Rheoli Llygredd, ac fe fydd ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn y Swyddfeydd Ardal yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Fe fyddwn yn codi tâl rhesymol am gopïau o gofnodion yn y Gofrestr Gyhoeddus.

### **10.4 Rheoliadau Gwybodaeth ynglŷn â'r Amgylchedd 1992**

Dan y rheoliadau hyn, fe all pobl wneud cais i Uned Rheoli Llygredd Cyngor Gwynedd i gael gwybodaeth am ddarn o dir. Fe fydd data ffeithiol sy'n benodol i'r safle dan sylw ar gael ar eu cais i aelodau o'r cyhoedd, i'r rhai sy'n gwneud trosglwyddo eiddo, neu i rai eraill â buddiant yn y mater. Fodd bynnag, ar ddisgresiwn y Cyngor, gellir gwrthod rhoi gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth a allai olygu baich sylweddol ac afresymol ar ei adnoddau. Ni fydd gwybodaeth ddehongliadol sy'n deillio o archwiliad manwl – er enghraifft y model safle cysyniadol, cofnod o unrhyw gysyllteddau llygrol, darganfyddiadau o ran asesu risg, ac ati, ar gael i'r cyhoedd. Ym mhob achos, byddwn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n rheoli mynediad y cyhoedd i wybodaeth.

Os yw'r cais yn un penodol a ddim yn un sydd yn disgyn o dan y cyfyngderau sydd o fewn y Rheoliadau, fe ddarperir y gwybodaeth. Yn unol â'r Rheoliadau, mae'r Uned Rheoli Llygredd yn codi tâl am wybodaeth amgylcheddol. Bwriad y tâl, sydd yn destun adolygiad blynyddol yw i gynnwys costau rhesymol yr Awdurdod tra'n casglu a darparu'r gwybodaeth. Fe dderperir y gwybodaeth mor fuan a phosib, o fewn 10 diwrnod fel arfer. Bydd gwadiad yn cael ei gynnwys gyda'r gwybodaeth.

## 10.5 Holiaduron Pridiannau Tir Lleol

Mae cwestiynau sy'n ymwneud â materion dan Rhan IIA DDA 1990 yn cael eu cynnwys ar yr holiadur chwiliad safonol. Fe fydd Adain Weinyddol, Adran yr Ysgrifennydd a Chyfreithiwr yn derbyn holiaduron cyfredol wrth i berchnogaeth tir neu eiddo gael ei drosglwyddo. Yna fe fyddant yn dosbarthu'r cwestiynau i'r adrannau priodol. Ar hyn y bryd, fe fydd unrhyw wybodaeth bellach am halogiad tir sy'n ofynnol fel rhan o weithrediad eiddo yn cael ei chyfeirio at yr Uned Rheoli Llygredd o fewn telerau Rheoliadau Gwybodaeth ynglŷn â'r Amgylchedd 1992.

## 10.6 Ffeiliau Cynllunio

Dan ddarpariaeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefnau Datblygu Cyffredinol) 1990, mae gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ill dau wybodaeth y gall y cyhoedd gael mynediad iddo mewn ffeiliau sy'n ymwneud â safleoedd penodol. Gellir gweld cynnwys y ffeiliau trwy gysylltu â derbynfydd tair Swyddfa Ardal Gwynedd, neu Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth, yn ystod oriau swyddfa arferol. Argymhellir y dylai'r sawl sydd am weld y ffeil ffonio derbynfa'r swyddfa berthnasol cyn yr ymweliad, i sicrhau bod modd iddynt weld y ffeil dan sylw.

## 10.7 Defnydd Adrannau Eraill y Cyngor o Ganlyniadau'r Archwiliad

Gweithdrefnau a sefydlwyd gan Weithgor Tir Halogedig Gwynedd fydd y prif lwybr i'w ddilyn wrth gyfnewid gwybodaeth sy'n ymwneud â threfn tir halogedig o fewn y Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Yn unol ag amcanion a blaenoriaethau'r Strategaeth Archwilio, fe fydd unrhyw wybodaeth berthnasol a ddaw i law wrth weithredu'r Strategaeth Archwilio, boed yn gyffredinol neu'n benodol i un safle, ar gael i'r rheiny sy'n cynnal dyletswyddau a gweithgareddau eraill y Cyngor.

## 10.8 Darparu gwybodaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Fel y nodwyd yn y penodau blaenorol, fe fyddwn yn dapraru gwybodaeth a ddaw i law ar safleoedd penodol wrth weithredu'r Strategaeth Archwilio i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru dan yr amgylchiadau canlynol:

- lle bo'r Cyngor yn ystyried y bydd y safle yn debygol o gael ei ddynodi'n Safle Arbennig;
- pan fydd y Cyngor yn ystyried y gallai fod problem o ran llygriad dyfroedd a reolir;
- pan fydd yn ystyried cynnal archwiliad ymwthiol allai effeithio ar ddyfroedd a reolir;
- os yw'r Cyngor yn ystyried y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru drin yr halogiad tir ar y safle dan drefn reoliadol amgen;
- pan fydd Asiantaethau yr Amgylchedd Cymru yn gofyn am hynny.

Yn yr un modd, fe fydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn hysbysu Cyngor Gwynedd ynglŷn ag unrhyw halogiad, neu ynglŷn ag unrhyw lygredd i'r dŵr sy'n tarddu o dir yng Ngwynedd, neu unrhyw wybodaeth arall sydd ganddi a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol Rhan IIA DDA 1990.

Mae Rhan IIA yn gofyn bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn paratoi adroddiad o bryd i'w gilydd ar gyflwr tir halogedig yng Nghymru a Lloegr. Fe fydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Memorandwm Dealltwriaeth a luniwyd rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, a'i gofynion bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r Asiantaeth er mwyn iddi lunio'r adroddiad. Darperir y wybodaeth berthnasol drwy gwblhau y ffurflenni SOCL/LA safonol.

Ym mhob achos, Swyddog Tir Halogedig yr Ardal, Rhanbarth Gogledd Cymru fydd y prif bwynt cyswllt ag Asiantaeth yr Amgylchedd – gweler Pennod 11 am y manylion.



## 11 GWYBODAETH ARALL I GEFNOGI'R STRATEGAETH

### 11.1 Cysylltiadau yn y Cyngor

Y prif gyswllt o ran Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Gwynedd yw:

Y Swyddog Llygredd,  
Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd,  
Cyngor Gwynedd,  
Swyddfa Ardal Arfon,  
Penrallt,  
Caernarfon,  
Gwynedd.  
LL55 1BN.

Mr Alwyn M. Roberts, Swyddog Llygredd, Ffôn (01286) 682874  
E-bost: [AlwynMRoberts@gwynedd.gov.uk](mailto:AlwynMRoberts@gwynedd.gov.uk)

Mr Tim J. Hughes, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Ffôn (01758) 704020

E-bost: [TimothyJHughes@gwynedd.gov.uk](mailto:TimothyJHughes@gwynedd.gov.uk)

Y canlynol yw aelodau'r Gweithgor Tir Halogedig: -

Enw	Adran/Awdurdod
Emyr S. Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwarchod y Cyhoedd	Tai a Gwarchod y Cyhoedd
Timothy J. Hughes, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Llygredd)	Tai a Gwarchod y Cyhoedd
Alwyn M. Roberts, Swyddog Llygredd	Tai a Gwarchod y Cyhoedd
Jeff Doherty, Prif Beiriannydd	Priffyrdd a Pheirianneg
Barry Davies, Swyddog Morol	Addysg, Diwylliant a Hamdden
John Gwynedd Roberts, Cyfreithiwr	Ysgrifennydd a'r Cyfreithiwr
Aled Davies, Rheolwr Polisi	Cynllunio a Datblygu Economaidd
Haydn Williams, Rheolwr Rheoliadau Adeiladu	Cynllunio a Datblygu Economaidd
Will Roberts, Prif Swyddog Stadau	Ysgrifennydd a Chyfreithiwr
Ieuan Lewis, Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol	Prif Weithredwr
Caren Rees Jones, Pennaeth y Cyfrifwyr	Y Trysorydd
Robert Goodman, Rhaglennydd S. W. D.	Y Trysorydd

---

<b>Partneriaid allanol</b>	
Nichola Taylor, Swyddog Cynllunio Tactegol	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Gareth Lloyd, Swyddog Cynllunio	Parc Cenedlaethol Eryri

## 11.2 Ymgynghorwyr Statudol

Sefydliad	Enw Cyswllt	Ffôn	Cyfrifoldeb
Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)	Steve Parkinson a Nichola Taylor	(01248) 670770 Est. 4113	Swyddogion Cynllunio Tactegol
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Dylan Williams	(01248) 385487	Swyddog Gwyddor Pridd/Ymgynhorydd Polisi
Cadw	Mrs S. Barattini	(02920) 823804	Gweinyddiaeth Henebion
Awdurdod Datblygu Cymru	Jeff Porter	(01745) 586239	Adfer Tir a Rheolwr yr Amgylchedd
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch		(01978) 290500	
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Robert Templar		
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Adran Amaethyddiaeth	Noel Jones	(01286) 674144	Uwch Swyddog Gweithredol
DEFRA	Dafydd Pugh	(01286) 674144	Swyddog Milfeddygol
Asiantaeth Safonau Bwyd	Dr. Sarah J. Rowes		Adran CCAF
Parc Cenedlaethol Eryri	Gareth Lloyd	(01766) 770274	Awyddog Cynllunio
Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Powys Cyngor Sir Ceredigion	Caroline Storer Charles Phillips Graham Aveyard Martin Gregory Dewi Roberts	(01248) 750057 (01492) 575203 (01824) 706088 (01874) 612250 (01545) 570881	Swyddogion Arweiniol Tir Halogedig yn yr awdurdodau cyfagos

## 11.3 Ymgynghorwyr Eraill

Sefydliad	Enw Cyswllt	Ffôn	Cyfrifoldebau
NFU	Dafydd Jarret	(01824) 702455	Swyddog Polisi
UAC	Gwynedd Watkin	(01286) 672541	Swyddog Gweithredol Sirol
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	Bob Berry	(01743) 262528	Cynghorwr Ystadau
Prifysgol Cymru Bangor	Yr Athro John Farrar	(01248) 382000	Sefydliad Gwyddor Amgylcheddol
Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru	Dr. R. Roberts	(01352) 700227	Ymgynghorwr Iechyd Cyhoeddus
Grŵp Iechyd Lleol Gwynedd	Grace L. Parry	(01352) 700227	Rheolwr Cyffredinol
Cyfeillion y Ddaear	Neil Crumpton		Cynrychiolydd Rhanbarthol
Ffederasiwn Busnesau Bychain	Neil Taylor	(01745) 356393	Trefnydd Rhanbarthol
Cynghorau Tref a Chymuned	Adran yr Ysgrifennydd a Chyfreithiwr		
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	Dave Thompson	(01248) 352535	
Menter Coedwigaeth Cymru	Terry O'Keefe	(01341) 422289	Rheolwr Ardal Coedwigaeth

---

## CYFEIRIADAU

Adran yr Amgylchedd (DoE) (1995). *CLR Report No. 6 Prioritisation and Categorisation Procedure for Sites Which May Be Contaminated*, Llundain. DoE.

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth â'r Rhanbarthau (DETR) (2000). *Contaminated Land Inspection Strategies, Technical Advice for Local Authorities*, Llundain. DETR.

Asiantaeth yr Amgylchedd (2001). *Local Authority Guide to the Application of Part IIA Of the Environmental Protection Act 1990*. Environment Agency R&D Contract REG/CON-79 Working Draft 01.

British Standards Institution (2001). *BS 10175: Investigation of potentially contaminated sites – Code of Practice*, Llundain. BSI.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Adfer Tir Halogedig*, Cardiff, CCC.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001*. Welsh Statutory Instrument No 2197 (W.157), Llundain. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Hellawell, T. (2000). *Blackstones Guide to Contaminated Land*, Llundain. Blackstones.

HMSO, (1990). *Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*, Llundain. Llyfrfa ei Mawrhydi.

HMSO. (1995). *Deddf yr Amgylchedd 1995*, Llundain. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Howarth, G. (2002). *Metal Mines Strategy for Wales – Draft for External Consultation*. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Interdepartmental Committee on the Redevelopment of Contaminated Land (1987). *ICRCL Guidance Note 59/83 - Second Edition: July 1987 - Guidance on the assessment and redevelopment of contaminated land*, Llundain. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Roberts, A. M. (2000). *An Assessment of the Risk of Landfill Gas Migration from Closed Disposal Sites in Gwynedd, With Reference to Part IIA of the Environmental Protection Act 1990*. MSc in Environmental Protection dissertation. Prifysgol Salford.

Scotland and Northern Ireland Forum for Environmental Research (1999). *Communicating Understanding of Contaminated Land Risks*. SNIFFER Project No SR97(11)F.

**ATODIAD I TABL A – CATEGORïAU NIWED SYLWEDDOL**

	<b>Y Math o Dderbynnedd</b>	<b>Disgrifiad o'r niwed i'r math hwnnw o dderbynnedd y dylid barnu ei fod yn niwed sylweddol</b>
1	Bodau dynol	<p>Marwolaeth, afiechyd, anaf difrifol, newid genetig, diffygion geni neu amhariad ar weithrediadau atgenhedlol.</p> <p>At y dibenion hyn, cymerir bod afiechyd yn golygu cyflwr afiach yn y corff neu ran ohono, a gall gynnwys, er enghraifft, canser, camweithrediad yr afu neu afiechydon sydd wedi ymledu ar y croen. Ni chynhwysir camweithrediad y meddwl ond i'r graddau y gellir ei briodoli i effeithiau llygryn ar gorff y person o dan sylw.</p> <p>Yn y Bennod hon, cyfeirir at y disgrifiad hwn o niwed sylweddol fel "effaith ar iechyd dynol".</p>
2	<p>Unrhyw system ecolegol, neu organedd byw sy'n rhan o system o'r fath, o fewn lleoliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sy'n ardal sydd wedi'i hysbysu yn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;</li> <li>• sy'n unrhyw dir sydd wedi'i ddatgan yn warchodfa natur genedlaethol o dan adran 35 o'r Ddeddf honno;</li> <li>• sy'n unrhyw ardal a ddynodwyd yn warchodfa natur forol o dan adran 36 o'r Ddeddf;</li> <li>• sy'n Ardal Gwarchod Arbennig i Adar, a sefydlwyd o dan adran 3 o'r Ddeddf honno;</li> <li>• sy'n unrhyw Safle Ewropeaidd o fewn ystyr rheoliad 10 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994 (h.y. Ardaloedd Arbennig Cadwraeth ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig);</li> <li>• sy'n unrhyw ddarpar Ardal Arbennig Cadwraeth, Ardal Gwarchod Arbennig bosibl neu safle Ramsar rhestredig; neu</li> <li>• sy'n unrhyw warchodfa natur a sefydlwyd o dan adran 21 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.</li> </ul>	<p>Ar gyfer <u>unrhyw</u> le gwarchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• niwed sy'n arwain at newid andwyol di-droi'n-ôl, neu at ryw newid andwyol sylweddol arall, yng ngweithrediad y system ecolegol o fewn unrhyw ran sylweddol o'r lle hwnnw; neu</li> <li>• niwed sy'n effeithio ar unrhyw rywogaeth o ddiddordeb arbennig yn y lle hwnnw ac sy'n peryglu parhad poblogaeth y rhywogaeth honno yn y lle hwnnw yn y tymor hir.</li> </ul> <p>Yn ychwanegol, yn achos lle gwarchod sy'n Safle Ewropeaidd (neu'n ddarpar Ardal Arbennig Cadwraeth neu'n Ardal Gwarchod Arbennig bosibl), niwed sy'n anghydnaws â statws cadwraeth ffafriol y cynefinoedd naturiol yn y lle hwnnw neu'r rhywogaethau a geir yno'n gyffredinol.</p> <p>Wrth benderfynu beth yw niwed o'r fath, dylai'r awdurdod lleol roi sylw i gyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac i ofynion Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994.</p> <p>Yn y Bennod hon, cyfeirir at y disgrifiad hwn o niwed sylweddol fel "effaith ar systemau ecolegol".</p>
3	<p>Eiddo ar ffurf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cnydau, gan gynnwys pren;</li> <li>• cynnyrch sy'n cael ei dyfu gartref, neu ar randiroedd, i bobl ei ffwyta;</li> <li>• da byw;</li> <li>• anifeiliaid eraill o dan berchenogaeth neu anifeiliaid dof;</li> <li>• anifeiliaid gwyllt sy'n destun hawliau saethu neu bysgota.</li> </ul>	<p>Yn achos cnydau, lleihad sylweddol mewn cynnyrch neu golled sylweddol arall yn eu gwerth o ganlyniad i farwolaeth, afiechyd neu ddifrod ffisegol arall. Yn achos anifeiliaid anwes dof, marwolaeth, afiechyd difrifol neu ddifrod ffisegol difrifol. Yn achos eiddo arall yn y categori hwn, colled sylweddol yn ei werth o ganlyniad i farwolaeth, afiechyd neu ddifrod ffisegol difrifol arall.</p> <p>Dim ond pan fydd cyfran sylweddol o'r anifeiliaid neu'r cnydau wedi marw neu fel arall yn an-ffit at eu diben arfaethedig y dylai'r awdurdod lleol farnu bod colled sylweddol mewn gwerth wedi digwydd. Dylid ystyried bod bwyd bellach yn an-ffit at ei ddiben pan fydd yn methu â chydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Pan gaiff lleihad mewn cynnyrch neu golled mewn gwerth ei achosi gan gysylltedd llygrol, dylid barnu bod lleihad neu golled o 20% yn feincnod ar gyfer yr hyn sy'n lleihad neu'n golled sylweddol.</p> <p>Yn y Bennod hon, cyfeirir at y disgrifiad hwn o niwed sylweddol fel "effaith ar anifeiliaid neu gnydau".</p>
4	<p>Eiddo ar ffurf adeiladau.</p> <p>At y diben hwn, ystyr "adeilad" yw unrhyw strwythur neu adeiledd, ac unrhyw ran o adeilad gan gynnwys unrhyw ran ohono sydd islaw lefel y ddaear, ond nid yw'n cynnwys y peiriannau neu'r peirianwaith a gynhwysir mewn adeilad.</p>	<p>Methiant strwythurol, difrod sylweddol neu amhariad sylweddol ar unrhyw hawl i feddiannu.</p> <p>At y diben hwn, dylai'r awdurdod lleol ystyried bod difrod sylweddol neu amhariad sylweddol yn digwydd pan na fydd modd defnyddio unrhyw ran o'r adeilad mwyach at y diben y bwriadwyd neu y bwriedir yr adeilad ar ei gyfer.</p> <p>Yn ychwanegol, yn achos Heneb restredig, dylid barnu bod difrod sylweddol yn digwydd pan fydd y difrod yn amharu'n sylweddol ar y diddordeb hanesyddol, pensaeriol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol y cofrestrwyd yr heneb o'i herwydd.</p> <p>Yn y Bennod hon, cyfeirir at y disgrifiad hwn o niwed sylweddol fel "effaith ar adeiladau".</p>

**ATODIAD II      TABL B – POSIBILRWYDD SYLWEDDOL O NIWED SYLWEDDOL**

	<b>Disgrifiadau o Niwed Sylweddol (Fel y'i diffinnir yn Nhabl A)</b>	<b>Yr Amodau Sy'n Golygu Bod Posibilrwydd Sylweddol o Niwed Sylweddol</b>
1	<p>Effeithiau ar iechyd dynol sy'n deillio</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• o gymeriant halogyn, neu</li> <li>• o unrhyw gysylltiad corfforol uniongyrchol arall â halogyn.</li> </ul>	<p>Os byddai maint y llygryn yn y cysylltedd llygrol o dan sylw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y gallai derbynnydd dynol yn y cysylltedd hwnnw ei gymryd i mewn, neu</li> <li>• y gallai'r cyfryw fod dynol gael ei ddatguddio iddo fel arall,</li> </ul> <p>o ganlyniad i'r llwybr yn y cysylltedd hwnnw, yn cynrychioli datgeliad annerbyniol neu gyswllt corfforol uniongyrchol, wedi'i asesu ar sail gwybodaeth berthnasol am briodweddau gwenwynegol y llygryn hwnnw.</p> <p>Dylai asesiad o'r fath gymryd i ystyriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfanswm tebygol cymeriant y sylwedd neu'r sylweddau sy'n ffurfio'r llygryn, neu'r datgeliad iddynt, o bob ffynhonnell gan gynnwys y cysylltedd llygrol o dan sylw;</li> <li>• cyfraniad cymharol y cysylltedd llygrol o dan sylw at gymeriant agregedig tebygol y sylwedd neu'r sylweddau perthnasol, neu'r datgeliad iddynt; a</li> <li>• hyd y cymeriant neu'r datgeliad sy'n deillio o'r cysylltedd llygrol o dan sylw.</li> </ul> <p>Mae'r cwestiwn a yw cymeriant neu ddatgeliad yn annerbyniol yn annibynnol ar nifer y bobl a allai brofi'r cymeriant neu'r datgeliad hwnnw neu y gallai'r cymeriant neu'r datgeliad effeithio arnynt.</p> <p>Dylid cymryd bod priodweddau gwenwynegol yn cynnwys priodweddau carsinogenig, mwtagenig, teratogenig, pathogenig, priodweddau sy'n amharu ar endocrin a phriodweddau tebyg eraill.</p>
2	<p>Pob effaith arall ar iechyd dynol (yn enwedig drwy gyfrwng ffrwydriad neu dân).</p>	<p>Os yw tebygrwydd, neu amllder, niwed sylweddol o'r disgrifiad hwnnw yn annerbyniol, wedi'i asesu ar sail gwybodaeth berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• am y math hwnnw o gysylltedd llygrol, neu</li> <li>• am y ffaith bod y math hwnnw o niwed sylweddol yn deillio o achosion eraill.</li> </ul> <p>O wneud asesiad o'r fath, dylai'r awdurdod lleol ystyried y lefelau risg y barnwyd eu bod yn annerbyniol mewn cyd-destunau tebyg eraill a dylent roi pwysigrwydd arbennig i achosion lle y gallai'r cysylltedd llygrol achosi niwed sylweddol a fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ddi-droi'n-ôl neu na fyddai modd ei drin;</li> <li>• a fyddai'n effeithio ar nifer sylweddol o bobl;</li> <li>• a fyddai'n deillio o un digwyddiad megis tân neu ffrwydriad; neu</li> <li>• a fyddai'n debygol o ddeillio o ddatguddiad byr-dymor (hynny yw, llai na 24 awr) i'r llygryn.</li> </ul>
3	<p>Pob effaith ar systemau ecolegol</p>	<p>Os yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• niwed sylweddol o'r disgrifiad hwnnw yn debycach o ddeillio o'r cysylltedd llygrol o dan sylw; neu</li> <li>• fod posibilrwydd rhesymol o niwed sylweddol o'r disgrifiad hwnnw yn cael ei achosi, ac os digwyddai'r niwed hwnnw, byddai'n achosi cymaint o ddifrod i nodweddion o ddiddordeb arbennig yn y lleoliad o dan sylw fel y byddent y tu hwnt i unrhyw bosibilrwydd ymarferol o'u hadfer.</li> </ul> <p>Dylai unrhyw asesiad a wnaed at y dibenion hyn gymryd i ystyriaeth y wybodaeth berthnasol am y math hwnnw o gysylltedd llygrol, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau ecowenwynegol y llygryn.</p>
4	<p>Pob effaith ar anifeiliaid a chnydau.</p>	<p>Os yw niwed sylweddol o'r disgrifiad hwnnw yn debycach o ddeillio o'r cysylltedd llygrol o dan sylw na pheidio, gan gymryd i ystyriaeth wybodaeth berthnasol am y math hwnnw o gysylltedd llygrol, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau ecowenwynegol y llygryn.</p>
5	<p>Pob effaith ar adeiladau.</p>	<p>Os yw niwed sylweddol o'r disgrifiad hwnnw yn debycach o ddeillio o'r cysylltedd llygrol o dan sylw na pheidio yn ystod oes economaidd ddisgwyliedig yr adeilad (neu, yn achos Heneb gofrestredig, y dyfodol rhagweladwy), gan gymryd i ystyriaeth wybodaeth berthnasol am y math hwnnw o gysylltedd llygrol.</p>

**ATODIAD III POTENSIAL SAFLEOEDD I ACHOSI HALOGIAD**

<b>Categori</b>	<b>Is-gategoriâu yn cynnwys:</b>	<b>Dosbarth</b>	<b>Sgôr</b>
Anifeiliaid a gweithfeydd prosesu cynhyrchion anifeiliaid	llad-dai toddwyr anifeiliaid gweithfeydd glud taner dai crwynwyr	Uchel	25
Gweithgynhyrchu Asbestos		Uchel	25
Gweithfeydd Cemegion	cynhyrchu cemegion cynnyrch fferyllol plastigion ffrwydron (ond nid y Weinyddiaeth Amddiffyn) gwrteithiau plaladdwyr colur caenau gweithfeydd sebon	Uchel	25
Gweithfeydd Nwy, Gweithfeydd Golosg a Gweithfeydd Carboneiddio Glo	cynhyrchu golosg gweithfeydd goleuo nwy purfeydd nwy cynwysyddion nwy (storfeydd) dosbarthu nwy	Uchel	25
Metal Works	cynhyrchu metel coethi gorffen mwyndoddi gofannu	Uchel	25
Purfeydd Olew	prosesu tar/ bitwmen cynhyrchu asffalt cynhyrchu caenau i'r ffordd	Uchel	25
Gorsafoedd Petrol a Swmp-storio Cynhyrchion Olew / Petrol	canolfannau dosbarthu olew	Uchel	25
Safleoedd Gwaredu Gwastraff	safleoedd tirlenwi gorsafoedd trosglwyddo iardiau sborion prosesu gwastraff trin gwastraff ailgylchu ac adfer safleoedd gwastaff domestig llosgyddion	Uchel	25
Gweithfeydd Peirianeg	peirianeg fecanyddol cynhyrchu cerbydau adeiladu llongau gweithgynhyrchu prosesu	Canolig/ Uchel	20

--	--	--	--

<b>Categori</b>	<b>Is-gategoriâu yn cynnwys:</b>	<b>Dosbarth</b>	<b>Sgôr</b>
Seidins ar Dir Rheilffyrdd	depos gorsafoedd lein y rheilffordd iard nwyddau cynnal a chadw	Canolig/ Uchel	20
Gweithfeydd Coed	gweithfeydd trin coed iardiau coed cynhyrchu cynnyrch pren	Canolig/ Uchel	20
Diwydiannau Echdynnu a Chwareli	chwareli llechi (dwfn/brig) glofeydd siafftau pyllau gweithfeydd sment gweithfeydd briciau pyllau graean	Canolig	15
Meysydd awyr		Canolig	15
Eraill (amrywiol)	cynhyrchu gwydr golchdai sychlanhau	Canolig	15
Gorsafoedd Pŵer	is-orsafoedd trydan	Canolig	15
Gweithfeydd Papur a Mwydion Papur	Gweithgynhyrchu argraffu prosesu	Canolig	15
Cynnal a Chadw cerbydau	garejys depos trafndiaeth a chludo datgymalu trwsio a gwasanaethu	Canolig	15
Diwydiant Tecstiliau	melinau gwaith tecstiliau gweithfeydd llifynnau, melinau carpedi gweithfeydd cynhyrchu rhaffau	Canolig	15
Gweithfeydd (amhenodol)		Canolig	15
Ysbytai a Mynwentydd	amlogfeydd claddfeydd clinigau	Isel/Canolig	10
Trin Carthion	gweithfeydd trin ffermydd carthffosiaeth llosgyddion canolfannau trin dŵr gwastraff / elifiant arall	Isel/Canolig	10
Tir Amaethyddol	Ffermydd	Isel	5



---


Diwydiant bwyd	gweithgynhyrchu a phroses bwyd bragdai poptái	Isel	5
----------------	---	------	---

**ATODIAD IV DERBYNYDDION ALLAI FOD YN SENSITIF**

<b>Categori</b>	<b>Is-gategoriâu yn cynnwys:</b>	<b>Sgôr</b>
POBL (Seiliedig ar ddefnyddio'r tir)	Eiddo preswyl â gerddi [meddiannwyr] Eiddo preswyl heb erddi (fflatiau, rhandai) [meddiannwyr] Lotments [garddwyr, defnyddwyr] Ysgolion [disgyblion, athrawon, gweithwyr, ymwelwyr] Mannau Chwarae i blant [plant] Caeau chwarae a meysydd chwaraeon [defnyddwyr] Sefydliadau addysgol eraill [myfyrwyr, gweithwyr, ymwelwyr] Parciau a Mannau Agored [defnyddwyr] Eiddo masnachol [gweithwyr, ymwelwyr] Tir Segur [tresmaswyr] Canolfannau Iechyd ac Ysbytai [cleifion, gweithwyr, ymwelwyr]	10
DYFROEDD A REOLIR	Dŵr Wyneb Ffynonellau Tynnu Dŵr Yfed Ardaloedd Gwarchod Tarddleoedd Dŵr Daear – Dyfrhaenau Mawr Dŵr Daear – Echdyniadau Preifat Pob Dŵr Daear arall	4
ECOLEGOL (Blodau ac Anifeiliaid)	SODdGA Gwarchodfeydd natur Cenedlaethol Gwarchodfeydd natur morol Ardaloedd arbennig gwarchod adar Safleoedd Ewropeaidd (AAC, AGA a darpar AAC ac AGA) Safleoedd Ramsar Gwarchodfeydd Natur	3
EIDDO	Tir Amaethyddol Coetir (gan gynnwys Coetir Hynafol) Coed â TPO Cnydau Llynnoedd pysgota Ffermydd pysgod Anifeiliaid fferm / anifeiliaid sy'n pori Helfilod (stadau) Cyndai a Chathdai	2
EIDDO	Henebion a Henebion Rhestredig Adeiladau Rhestredig Adeiladau	1

**ATODIAD V**

**BLAENORIAETHU WARDIAU ETHOLIADOL  
BODAU DYNOL**




**BLAENORIAETHU WARDIAU ETHOLIADOL  
SUSTEMAU ECOLEGOL**


Presenoldeb safle ecolegol o fewn y Ward = 10 Pwynt

Dim safle ecolegol yn y Ward = 0 Pwynt


**BLAENORIAETHU WARDIAU ETHOLIADOL  
DŴR WYNEB**



### BLAENORIAETHU WARDIAU ETHOLIADOL DŴR DAEAR



### BLAENORIAETHU WARDIAU ETHOLIADOL SAFLEOEDD Â'R POTENSIAL I FOD YN HALOGEDIG



---

**ATODIAD VI    RHAGLEN WAITH**

## ATODIAD VII GEIRFA

### Halogyn

Sylwedd sydd yn y tir, arno neu oddi tano sydd â'r potensial i achosi niwed neu lygru dyfroedd a reolir yw halogyn.

### Tir Halogedig

Unrhyw dir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol y mae'n rhan ohono ei fod, oherwydd y sylweddau sydd ynddo, arno neu oddi tano, yn y fath gyflwr nes bod:

- (c) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu y gallai niwed o'r fath gael ei achosi; neu fod
- (d) llygredd yn cael ei achosi neu yn debygol o gael ei achosi i ddyfroedd a reolir.

### Dyfroedd a reolir

Ddiffinnir y rhain yn ôl Rhan III (adran 104) Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Mae'n cynnwys dyfroedd tirol ac arfordirol, dyfroedd croyw mewndirol a dyfroedd daear.

### Defnydd cyfredol

Unrhyw ddefnydd a wneir yn bresennol, neu sy'n debygol o gael ei wneud o'r tir sy'n gyson ag unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n bodoli (neu sydd mewn modd arall yn gyfreithlon dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref). Mae'r diffiniad hwn yn amodol ar yr amodau canlynol:

- (e) dylid tybio bod defnydd cyfredol a wneir o'r tir neu sy'n debygol o gael ei wneud o'r tir, yn cynnwys unrhyw ddefnydd dros dro a ganiateir dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref, o bryd i'w gilydd;
- (f) mae'r defnydd cyfredol yn cynnwys defnydd neu ddatblygiadau yn y dyfodol nad oes angen caniatâd cynllunio newydd na diwygiedig ar eu cyfer;
- (g) dylid tybio, fodd bynnag, bod defnydd cyfredol yn cynnwys unrhyw ddefnydd hamdden anffurfiol, p'un a yw'r perchnogion neu'r meddianwyr wedi awdurdodi hynny ai peidio, (er enghraifft, plant yn chwarae ar y tir); fodd bynnag, wrth asesu tebygolrwydd unrhyw ddefnydd anffurfiol o'r fath, fe ddylai'r awdurdod lleol rhoi'r sylw dyledus i fesurau i atal mynediad i'r tir, neu i gyfyngu arno; ac
- (h) yn achos tir amaethyddol, fodd bynnag, ni ddylid tybio bod y defnydd amaethyddol cyfredol yn estyn y tu hwnt i dyfu cynydau a magu anifeiliaid sydd yn cael eu tyfu a'u magu ar y tir fel arfer.

### Effaith ar sustem ecolegol

Niwed Sylweddol o'r fath a restrir yn Nhabl A (Atodiad I).

### Niwed

Niwed i iechyd organeddau byw neu ymyrraeth arall â'r systemau ecolegol y maent yn rhan ohonynt, ac yn achos pobl, niwed i'w eiddo.

### Llwybr

Un neu fwy o ddulliau neu foddau:

- (a) y mae derbynydd yn agored i halogyn neu gael ei effeithio ganddo, neu
- (b) y gallai'r derbynydd fod yn agored i halogyn neu gael ei effeithio ganddo.

### Llygryn

Halogyn sy'n rhan o gysylltedd llygrol.



### **Cysylltedd llygrol**

Y berthynas rhwng yr halogyn, y llwybr a'r derbynnnydd.

### **Llygru dyfroedd a reolir**

Mynediad unrhyw sylwedd gwenwynig, niweidiol neu lygrol neu unrhyw wastraff solid i ddyfroedd a reolir.

### **Posibilrwydd niwed sylweddol**

Mesur o debygolrwydd, neu amledd, digwyddiadau a fyddai'n arwain at achosi niwed sylweddol.

### **Derbynnnydd**

Naill ai:

- (a) organeb byw, grŵp o organeddau byw, system ecolegol neu ddarn o eiddo:
- (i) sydd mewn categori a restrir yn Nhabl A (Gweler Atodiad I) fel math o dderbynnnydd, ac
- (ii) sy'n cael ei niweidio, neu a allai gael ei niweidio felly; neu
- (b) ddyfroedd a reolir sy'n cael eu llygru gan halogyn, neu a allai gael eu llygru felly.

### **Risg**

Cyfuniad o:

- (c) tebygolrwydd, neu amledd y digwydd perygl sydd wedi'i ddiffinio (er enghraifft eiddo yn agored i effaith sylweddol sydd â'r potensial i achosi niwed); a
- (d) maint y canlyniadau (gan gynnwys eu difrifoldeb).

### **Niwed Sylweddol**

Golyga hyn unrhyw niwed y pennir ei fod yn arwyddocaol yn unol â Phennod 1 y Canllawiau Statudol (hynny yw, ei fod yn cyfateb i'r disgrifiad o'r mathau o niwed yn ail golofn Tabl A – gweler Atodiad I).

### **Cysylltedd llygrol sylweddol**

Cysylltedd llygrol sy'n ffurfio sail penderfyniad bod darn o dir yn Dir Halogedig.

### **Posibilrwydd sylweddol o niwed sylweddol**

Posibilrwydd o niwed sylweddol yn ôl diffiniad 'sylweddol' ym Mhennod 1 y Canllawiau Statudol (cymh. Tabl B yn Atodiad II)

### **Safle Arbennig**

Safle a ddiffinnir yn ôl Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001. Safleoedd yw'r rhain sy'n cwrdd â'r diffiniad o 'dir halogedig' ac yn cyfateb i un o'r disgrifiadau a geir yn y Rheoliadau, gan gynnwys:

- rhai achosion o lygru dŵr
- achosion diwydiannol
  - llynnoedd tarau asid gwastraff
  - puro olew
  - ffrwydron
  - rhai safleoedd IPC penodol
  - safleoedd niwclear
- Tir yn mherchnogaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### **Sylwedd**

Unrhyw sylwedd naturiol neu artiffisial, p'un a yw ar ffurf solid neu hylif neu ar ffurf nwy neu anwedd.

### **Datblygu Cynaliadwy**

Cysyniad polisi amgylcheddol eang ei gwmpas â sawl diffiniad. 'Datblygu sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy' yw'r diffiniad mwyaf cyffredin ohono.